

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd Asesiad o Angen



Cyflwyniad

Yng Nghaerdydd, rydym yn credu y dylai pob person ifanc a phlentyn gael cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Bydd plant yn cyrraedd eu canlyniadau gorau pan gynnigir gwasanaethau a chymorth iddynt sy'n rhoi'r gallu iddynt dyfu a llwyddo yn eu teuluoedd eu hunain, pan fo hi'n ddiogel gwneud hynny [1]. Elfen allweddol o'n dull o gefnogi teuluoedd, pobl ifanc a phlant yng Nghaerdydd yw ymrwymiad i **Gymorth Cynnar**.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) [2] yn cefnogi'r sawl ag anghenion gofal a chymorth i gyflawni lles. Ystyr lles yw bod rhywun yn hapus, iach a chyfforddus â'i fywyd fel y diffinnir yn Atodiad 1. Mae gan bawb yr hawl i les ac mae gan bawb gyfrifoldeb dros ei les ei hun, ond mae angen help ychwanegol ar rai pobl i wneud hyn.

Rhoddir cymorth drwy bartneriaethau a chydweithio rhwng gwasanaethau. Bydd staff yn gweithio gyda theuluoedd i nodi'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Nod gwasanaethau yw atal uwchgyfeirio angen drwy sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir.

Mae gwaith ymchwil yn dangos er y ceir yr effaith fwyaf ar ddatblygiad plentyn yn ei flynyddoedd cyntaf, mae hefyd yn bwysig ymyrryd yng nghamau cynnar problem, waeth faint yw oedran y plentyn. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hyn trwy **weithio gyda theuluoedd** i ddatblygu eu

hatebion cynaliadwy eu hunain yn hytrach na 'gwneud ar ran' neu 'wneud i'.

Rydym oll yn gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Bydd gwasanaethau ar draws y ddinas yn hyblyg ac yn ymatebol i roi cymorth effeithiol i deuluoedd cyn gynted â phosib. Cyn gynted ag y daw ymarferydd yn ymwybodol o unrhyw anghenion ychwanegol bydd yn trafod y broblem â'r teulu ac yn cynnig cyngor a chymorth i fodloni'r angen hwnnw gan wneud atgyfeiriadau i asiantaethau eraill yn ôl yr angen.

Bydd asiantaethau'n canolbwyntio ar ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd a chwalu rhwystrau i gyfranogiad. Bydd y cymorth yn newid yn dibynnu ar lefel angen teulu gyda'r nod o leihau'r ddarpariaeth pan fo'n briodol i **feithrin gwydnwch mewn teuluoedd** ac nid dibyniaeth.

Ffordd partneriaeth Caerdydd o weithredu Cymorth Cynnar yw trwy sicrhau bod yr holl asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth pan fo'n briodol ac yn cynnal ffocws teulu-ganolog i sicrhau y caiff teuluoedd **y lefel gywir o gymorth ar yr adeg gywir**. Bydd staff yn rhoi Cynnig cymorth Actif i bob teulu, a gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg ac ieithoedd eraill yn ôl yr angen.

Wrth gynnig cymorth ar y lefel ymyrryd isaf, rydym yn ceisio gostwng nifer y teuluoedd y mae angen ymyrraeth adferol arnynt a sicrhau y gall pob teulu gael ei ganlyniadau gorau.

Mae'r ddogfen hon yn:

- Nodi dull integredig Caerdydd o gyflawni cymorth cynnar ac ymyriadau i deuluoedd
- Disgrifio'r sbectrwm angen a'r dangosyddion a'r gwasanaethau priodol
- Yn disgrifio arfer da wrth geisio cydsyniad, rhannu gwybodaeth ac anghytundeb proffesiynol
- Yn rhoi siart llif sy'n disgrifio sut y gall pobl a gweithwyr proffesiynol fanteisio ar Ofal a Chymorth fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Yn rhoi gwybodaeth ategol a chanllawiau ar ddangosyddion datblygiadol mewn teuluoedd, pobl ifanc a phlant ac ymchwil PPNau.

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Tabl Cynnwys	2
Cymorth Cynnar	4
Pam Cymorth Cynnar?	4
Cymorth Cynnar yng Nghaerdydd	5
Egwyddorion Allweddol Cymorth Cynnar	6
Nodau Gwasanaeth Cymorth Cynnar	6
Dangosyddion Angen ac Arwyddion Diogelwch	8
Cymorth yng Nghaerdydd.....	11
Porth i Deuluoedd.....	12
Astudiaeth Achos.....	13
Cymorth i Deuluoedd.....	15
Cymorth i Deuluoedd.....	16
Anghenion Gofal a Chymorth a Diogelu	18
Polisi a Chanllaw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	19
Proses Asesu	21
Barn Broffesiynol Wybodus.....	22
Datrys gwahaniaethau	22
Cydsyniad a Rhannu Gwybodaeth	23
Arfer da wrth rannu gwybodaeth.....	24
Rôl y Gweithiwr Allweddol.....	25
Dull Ffocws Ar Y Teulu	26
Cefnogi pobl ifanc a phlant ag anabledd	27
Cefnogi pobl ifanc	28
Adborth Teulu	29
Cyfeiriadau	30
Atodiad 1: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	31
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol A Llesiant – Siart Llif ar y Ddeddfwriaeth:	32
Atodiad 2: Profiadau Plentyndod Andwyol.....	33
Atodiad 3: Enghreifftiau o wasanaethau ar bob lefel.....	34
Atodiad 4: Adnodd Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	35
Yr Isafswm Set Data Craidd Cenedlaethol	35
Gwybodaeth ychwanegol i'w chael	36
Pum elfen allweddol asesiad	37

Camu at gyflawni canlyniadau personol.....	37
Datganiad ar sut y mae'r camau a nodwyd yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau personol	37
Canlyniadau'r asesiad	38
Atodiad 5: Dangosyddion o angen datblygu plant.....	39
Atodiad 6: Amodau Cymhwyso ar gyfer gofal a chymorth.....	43
Atodiad 7: Triongl y Fframwaith Asesu	44



Cymorth Cynnar

Pam Cymorth Cynnar?

Gwnaed gwaith gan asiantaethau ledled Caerdydd i ddatblygu iaith gyffredin sy'n disgrifio cymorth ataliol fel **Cymorth Cynnar**. Mae'n canolbwyntio ar gael y sgysiau cywir â'r bobl gywir i sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae corff sylweddol o ymchwil wedi dangos sut y gall straen cronig yn ystod plentyndod achosi niwed hirdymor. Gelwir y profiadau hyn yn Brofiadau Plentyndod Andwyol (PPAau) a all effeithio ar ddatblygiad plant (Atodiad 2) [3]. Mae'r rhai sy'n profi mwy o PPAau yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiadau niweidio iechyd a gwrthgymdeithasol yn y dyfodol, yn ogystal â bod yn fwy tebygol o ddatblygu heintiau fel diabetes, clefyd cardiofasgwlaidd a salwch meddwl.

Mae dau o nodau lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol i leihau amlygrwydd PPAau ar draws Cymru [4]. Bydd atal PPAau a meithrin gwydnwch mewn teuluoedd yn helpu i gyflawni Cymru iachach drwy wella lles corfforol a meddyliol pobl. Bydd y nod o sicrhau bod plant yn tyfu heb PPAau, yn ogystal â deall nad ydynt yn ddigwyddiadau unigol ond yn gysylltiedig ag amgylcheddau sy'n goddef anghydraddoldeb, yn cyfrannu at greu Cymru fwy cydradd lle gall pawb gyflawni ei botensial.

Mae'n well i deuluoedd a'r gymuned ehangach nodi ac ymyrryd mewn problemau'n gynnar er mwyn atal eu huwchgyfeirio nag i ymateb yn hwyrach. Gellir rhoi cymorth cynnar ar unrhyw adeg ym mywyd plentyn neu berson ifanc gydag ymyriadau yn gynnar ym mywyd plentyn neu wrth i broblem ddatblygu.

Gall ymyrraeth gynnar helpu pobl ifanc a phlant i fyw bywydau hapus, iach a llwyddiannus drwy ddatblygu eu gwydnwch a'u sgiliau yn ogystal â gwella bywyd cartref, perthnasau ac iechyd cyffredinol teuluoedd [5].

Gallai gweithredu'n gynnar:

- Leihau nifer y bobl ifanc a phlant sy'n cael eu heffeithio gan brofiadau plentyndod andwyol (PPAau).
- Gwella cyrhaeddiad addysgol a dyheadau i deuluoedd.
- Gwella mynediad i gyfleoedd cyflogaeth gwell.
- Lleihau gwariant diogelu a gofal drwy feithrin gwydnwch mewn teuluoedd.
- Lleihau nifer y lleoliadau maeth a phreswyl sydd bellach yn costio £3,800 yr wythnos ar gyfartaledd.

Mae sefyllfa pob teulu'n unigryw Bydd trafodaethau a phenderfyniadau ar y ffordd orau o fodloni anghenion, a pha asiantaeth sy'n y sefyllfa orau i wneud hynny, yn seiliedig ar:

- Ddealltwriaeth eglur o gryfderau ac angen y teulu,
- Trafodaethau â'r teulu cyfan gan gynnwys barn y plant, a
- Barn broffesiynol wybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd newid amgylchiadau'n golygu y bydd gofynion cymorth yn amrywio dros amser yn dibynnu ar yr effeithiau a'r berthynas rhwng cryfderau, breuder a ffactorau risg teulu.

Drwy gydweithio, gall ymarferwyr sicrhau bod teuluoedd yn cael y **lefel gywir o gymorth ar yr adeg gywir**.

Cymorth Cynnar yng Nghaerdydd

Yn gartref i 350,000 o bobl, mae Caerdydd yng nghanol Ardal Drefol ehangach Caerdydd yn Neddwyrain Cymru. Mae hi'n ddinas â chyferbyniadau mawr ynddi, gydag ardaloedd cyfoethog yng ngogledd y ddinas ac ardaloedd lle mae anfantais gymdeithasol-economaidd ddofn a sefydledig yn bennaf yn yr 'Arc Ddeheuol'. Mae hefyd bocedi o amddifadedd cudd mewn ardaloedd llai difreintiedig.

Mae lefel uchel y plant sy'n derbyn gofal yn ogystal â nifer gynyddol o atgyfeiriadau ac asesiadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn rhoi pwysau ar wasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae Partneriaeth Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd canolbwyntio ar ymyrraeth a chymorth effeithiol i deuluoedd yn hytrach na rheoli argyfyngau byrdymor [1].

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi gosod saith nod i wella lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru tra'n sicrhau iechyd a lles cenedlaethau'r dyfodol [2]. Mae cynnig gwasanaeth Cymorth Cynnar hygyrch yn cyfrannu at y nod o greu Cymru iachach drwy leihau'r effaith ar PPAu.

The Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Act (Wales) 2015 was developed to improve arrangements for the prevention, protection and support for anyone (women, men, children and young people) experiencing or affected by violence and abuse. It acknowledges that women and girls are disproportionately impacted by all forms of violence which is a violation of human rights and both a cause and consequence of inequality between women and men [8].

Children aged 0-17 are entitled to special human rights protection under the United Nations Convention on the Rights of the Child [9]. The Children's Commissioner for Wales published the Children's Right Approach for Wales in 2017 as a framework for integrating children's right into every aspect of policy and planning [12].

Cardiff is the first city in Wales to participate in Unicef UK's national Child Friendly Cities initiative [10]. A Child Friendly Cardiff is a city where the voices, needs and rights of all young people and children are respected and a place where these individuals are safe, healthy, happy and able to share in the city's success, regardless of their belief, ethnicity, background or wealth.

Nod Caerdydd yw sicrhau y caiff teuluoedd help ar y **lefel isaf o ymyrraeth ddiogel ac effeithiol** gan [11]:

- Cael Porth i Deuluoedd hygyrch i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth a all gyfeirio teuluoedd i wasanaethau priodol,
- Mabwysiadu dull Ffocws Ar Y Teulu i sicrhau y caiff teuluoedd y cymorth cywir, yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, a
- Gweithio i nodi'r rhai mewn perygl o PPNau a chyflawni ymatebion amlasiantaeth yn ôl yr angen i gefnogi teuluoedd cyn iddynt wynebu'r diben.

Egwyddorion Allweddol Cymorth Cynnar

Caiff y dull o roi Cymorth Cynnar ei ategu gan yr egwyddorion allweddol canlynol:

1. **Dull cryfhau teuluoedd** sy'n canolbwyntio ar gryfderau teuluoedd ac sy'n helpu rhieni i fagu plant gartref i gyflawni eu canlyniadau gorau lle y bo'n realistig a phosibl. Dylai teuluoedd gael eu grymuso i nodi eu problemau, eu hanghenion a'u hatebion eu hunain.
2. Defnyddir **dull Ffocws Ar Y Teulu** i ddeall anghenion y teulu cyfan drwy weithio mewn partneriaeth â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill.
3. **Dull seiliedig ar ganlyniadau** gyda chanlyniadau clir a mesuradwy i blant a theuluoedd. Bydd mentrau newydd ac ail-dargedu adnoddau'n seiliedig ar dystiolaeth a werthuswyd ar 'beth sy'n gweithio'.
4. Rhoi'r **lefel gywir o gymorth ar yr adeg gywir** drwy weithredu cynllun clir, canlyniadau a chymorth wedi'i deilwra â'r teulu.
5. **Dull partneriaeth gysylltiedig** a fydd yn defnyddio mentrau traws-bartneriaeth i sicrhau'r effaith fwyaf ac ail-dargedu adnoddau partner i leihau'r galw neu isgyfeirio ymyriadau i'r lefelau isaf priodol.
6. Caiff **dealltwriaeth ac iaith a rennir** eu llunio ar draws y ddinas a dull "dim drws anghywir" gyda'r holl bartneriaid sy'n cefnogi teuluoedd.
7. Deall **effaith tlodi** a defnyddio gwasanaethau cyngor ac i mewn i waith yn rheolaidd i sicrhau'r lefel uchaf o incwm a datrys problemau ag incwm a thai i deuluoedd.
8. Bydd **ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon** â theuluoedd yn galluogi'r grwpiau hyn i gyfrannu at weithredu'r model a rhoi adborth o'u barn a'u hawgrymiadau i'w hadolygu'n barhaus ac i werthuso canlyniadau.
9. Bydd angen sicrhau **datblygu'r gweithlu'n effeithiol a pharhaus** i roi'r hyder a'r profiad angenrheidiol i weithwyr weithio'n uniongyrchol â theuluoedd, yn enwedig wrth roi ymyriadau allgymorth a dwys.

Nodau Gwasanaeth Cymorth Cynnar

Nod Cymorth Cyntaf fydd:

- Rhoi **gwybodaeth, cyngor a chymorth** mewn ffordd amserol i leihau'r angen am gymorth parhaus.
- Datblygu cyd-ddealltwriaeth ar draws y ddinas, gan ddatblygu **dull dim drws anghywir** gyda'r holl bartneriaid sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi teuluoedd.
- **Gwella canlyniadau** ar draws ystod o ddangosyddion i deuluoedd a phlant â phob lefel o angen.
- Galluogi teuluoedd gyda phroblemau byrdymor sy'n dod i'r amlwg i gael help gwell wrth reoli'r problemau hyn, **meithrin gwydnwch** ac osgoi'r angen am gymorth tymor hwy.
- I helpu teuluoedd yn well gyda phroblemau cymhleth, gyda pherthynas yn seiliedig ar **ddull teulu cyfan** i atal yr angen am ymyrraeth statudol.
- Gwella ystod y gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd sy'n rhan o wasanaethau diogelu a gofal statudol i allu sicrhau'r dyfodol hirdymor gorau posibl a galluogi **'camu i lawr'** o wasanaethau cymorth pan fo'n ddiogel gwneud hynny.

Lefelau Angen

Gallai fod angen arweiniad ar ymarferwyr o ran yr ymateb mwyaf priodol i anghenion teulu. Mae'r ddogfen hon yn nodi fframwaith clir ar sut y caiff cymorth ei roi i deuluoedd ar draws y sbectrwm angen a ddisgrifir yn Ffigur 1 [6]. Bydd deall a rhoi'r lefelau hyn ar waith yn galluogi teuluoedd i gael cymorth yn fuan wrth i'r broblem ddod i'r amlwg.

The provided support will be **proportionate to the needs of the family**. Intervention should be at the lowest level appropriate to meet the needs of the family while supporting them in achieving their personal outcomes and the things that matter to them.

Dylai ymarferwyr fod yn agored ac onest â theuluoedd wrth benderfynu ar lefel angen. Gallai fod angen i ymarferwyr rannu gwybodaeth i roi'r cymorth cywir – dylid bob amser ceisio caniatâd y teulu wrth rannu gwybodaeth, onid yw plentyn mewn perygl o niwed sylweddol.

Mae enghreifftiau o'r asiantaethau sy'n rhoi cymorth ymhob lefel yn Atodiad 3.

Dylai teuluoedd, yn enwedig y rhai ag anghenion cymhleth, allu symud **drwy lefelau** cyn gynted a mor ddiymdrech â phosibl heb asesiadau ailadroddus, oni fu newid sylweddol yn eu hamgylchiadau.

Anodd Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol


Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gael sgwrs **Beth Sy'n Bwysig** gyda'r plentyn, person neu berson â chyfrifoldeb rhiant yn seiliedig ar y pum elfen asesu allweddol fel rhan o'r Adnodd Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol (Atodiad 4):

- Asesu amgylchiadau'r teulu,
- Ystyried y canlyniadau personol
- Nodi unrhyw rwystrau at gyflawni'r canlyniadau hyn,
- Asesu unrhyw risgiau i'r teulu os na chyflawnir eu canlyniadau
- Nodi cryfderau a galluedd y teulu

Hefyd, rhaid i'r pwynt cyswllt cyntaf i gaffael y Set Data Craidd Sylfaenol Cenedlaethol – nid oes ond angen ei gwblhau'n llawn os yw anghenion yn gymwys a bod angen cynllun gofal a chymorth (gweler t19 am fwy o fanylion).

Mae rhan olaf yr Adnodd Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol yn amlinellu'r hyn sydd angen i ymarferwyr ac aelodau'r teulu ei wneud i helpu'r plentyn neu berson ifanc i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Fframwaith y lefel cymorth priodol ar yr adeg briodol



Ffigur 1: Ar sail y sbectrwm anghenion i deuluoedd, pobl ifanc a phlant gan Lywodraeth Cymru [6].

CYFFREDINOL: *Nid oes gan ran fwyaf y teuluoedd anghenion ychwanegol ac ni ddônt i gysylltiad â gwasanaethau arbenigol na statudol.* I'r rhan fwyaf o deuluoedd, bydd cael mynediad i wasanaethau cynhwysol yn ddigon i fodloni eu hanghenion ac i gyflawni eu canlyniadau gorau. Dylai gwasanaethau arwain a chefnogi teuluoedd i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain.

YMYRRAETH GYNNAR: *Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai teuluoedd i fod yn iach, diogel ac i sicrhau'r canlyniadau gorau iddynt.* Gall yr anghenion hyn fod o ran amgylchiadau dros dro neu barhaus. Gallai fod angen cymorth ychwanegol yn yr ysgol, gartref neu'n y gymuned leol. Gallai'r ymateb gael ei roi gan un asiantaeth neu bartneriaeth rhwng sawl asiantaeth.

YMYRRAETH DDWYS: *Mae angen dull cydlynol neu aml-asiantaeth ar deuluoedd gyda lefelau angen uwch neu fwy cymhleth i hyrwyddo lles neu i atal anghenion rhag dod yn fwy cymhleth.* Mae angen pecyn dwys o gymorth i reoli'r pryderon hyn ond nid oes angen gwaith cymdeithasol statudol nac ymyriadau arbenigol. Mae cymorth yn debygol o fod yn fwy dwys neu caiff ei roi dros gyfnod hwy.

YMYRRAETH ADFEROL: *Mae angen amddiffyn neu ddiogelu rhai aelodau teuluoedd ac angen gwaith cymdeithasol statudol yn syth neu ymyrraeth dra arbenigol i'w harbed rhag niwed difrifol i'w hiechyd a lles.* Bydd gwasanaethau gwaith cymdeithasol plant yn cyflawni rôl y Gweithiwr Allweddol o ran gwasanaethau diogelu a chydlynu gwasanaethau ar y lefel angen hon.

Dangosyddion Angen ac Arwyddion Diogelwch

Mae pob teulu'n unigryw. Dylai penderfyniadau am lefelau cymorth fod yn seiliedig ar drafodaethau rhwng ymarferwyr a'r teulu.

Mae'r dangosyddion a roddir yn yr Helpu Teuluoedd a Chymorth i Deuluoedd yn enghreifftiau o sut y gallai fod angen, ac nid yw'n rhestr gyflawn o feini prawf sefydledig sy'n rhaid eu bodloni. Mae'n bwysig nodi na dim ond dangosyddion yw'r rhain a bydd angen barn broffesiynol a thrafodaethau â'r teulu i benderfynu ar anghenion. Mae pob teulu'n unigryw.

Each family will have different strengths, needs and resources available to them. Effective communication between the family and practitioners is essential to ensure that the family receives the **right level of support at the right time**.

Dylid ystyried yr effaith ar blentyn neu berson ifanc o ran iechyd, datblygiad a niwed neu niwed tebygol. Er na fydd rhai dangosyddion unigol yn destun pryder, dylid gwneud asesiad cyfannol i ystyried rhyngberthynas ffactorau gwahanol. Gallai ffactorau diogelu leihau breuder plentyn. Gall pryder hefyd gael ei uwchgyfeirio'n unol â maint difrifoldeb dangosydd.

I gael rhagor o wybodaeth am ddangosyddion ar gyfer lefelau angen gwahanol gweler Atodiad 5.

Defnyddir **dull Arwyddion Diogelwch** wrth asesu lefel y cymorth sydd ei hangen ar deulu:

Pryderon	Cryfderau	Symud Ymlaen
Niwed yn y gorffennol: Beth sydd wedi digwydd yng ngorffennol y teulu? Perygl yn y Dyfodol: Beth ydym ni'n poeni allai ddigwydd i'r teulu hwn os nad yw eu hymddygiad yn newid? Ffactorau sy'n Cymhlethu: Beth sy'n gwneud meithrin gwydnwch a gweithio gyda'r teulu hwn yn gymhlethach?	Beth sy'n gweithio'n dda yn y teulu hwn? Cryfderau: Agweddau cadarnhaol ar y teulu'n bodloni anghenion sylfaenol. Diogelwch: Ymddygiadau sy'n dangos gallu i ddiogelu aelodau agored i niwed o'r teulu dros amser. Pa gymorth ac adnoddau gall y teulu fanteisio arnynt?	Nodau Asiantaeth: Beth sydd angen i'r asiantaeth weld y mae'r teulu'n ei wneud (a thros ba gyfnod) i fod yn hyderus bod digon o ddiogelwch a gwydnwch i gau'r achos? Nodau'r Teulu: Beth yw barn y teulu ar beth sydd angen iddynt ei wneud i'r asiantaeth allu cau'r achos? Y Camau Nesaf: Beth yw syniadau'r asiantaeth a'r teulu ynghylch beth sydd angen digwydd nesaf wrth weithio at y nodau hyn?

CYFFREDINOL Dim anghenion ychwanegol yn bennaf	Gall unrhyw anghenion gael eu bodloni gan wasanaethau cyffredinol. Mae anghenion corfforol ac emosiynol yn cael eu bodloni. Perthnasau rhwng gofawyr, brodyr a chwiorydd a chyfoedion yn dda. Plant a phobl ifanc yn dangos gwybodaeth ac ymddygiad priodol i'w hoedran. Plant a phobl ifanc yn mynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn rheolaidd. Rhieni'n darparu i'w plant ac yn eu diogelu rhag niwed tra'n rhoi arweiniad cyson priodol i'w hoedran a sicrhau bod pob aelod o'r teulu'n dod i apwyntiadau iechyd.		
	Ffactorau o ran iechyd a datblygiad y plentyn neu berson ifanc	Ffactorau o ran rhieni a gofawyr	Ffactorau amgylcheddol
YMYRRAETH GYNNAR Gallai angen ychwanegol olygu bodd teuluoedd angen gwasanaeth Cy-morth Cynnar (Help i Deuluoedd)	• Datgysylltu o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant • Lles emosiynol neu bryderon iechyd meddwl • Ddim yn mynd i apwyntiadau • Defnyddio alcohol neu gyffuriau • Hyder neu hunan-barch isel • Presenoldeb gwael yn yr ysgol neu ddiarddel • Araf wrth gyrraedd cerrig milltir datblygu	• Gwrthdaro rhwng rhieni • Diffyg ffiniau priodol • Ymgysylltu gwael gan rieni • Rhiant yn y carchar • Beichiogrwydd/rhiant yn yr ardegau • Mae gan y rhiant broblemau iechyd meddwl neu gorfforol neu anabledd dysgu • Rhiant angen cyngor ar rianta	• Ynysu cymdeithasol • Safbwyntiau eithafol yn y teulu neu gymuned • Hanes o gam-drin domestig • Teulu'n rhan o droseddau neu mewn peryg o wneud hynny • Colli oedolion pwysig (profedigaeth, arwahanu) a allai effeithio ar les plentyn
YMYRRAETH DDWYS Mae angen ymateb cydlynol wedi'i dargedu ar deuluoedd o oresgyn rhwystrau (Cymorth i Deuluoedd)	• Bod yn ofalwr ifanc • Anableddau • Patrymau absenoldeb cyson o gartref neu'r ysgol • Pryderon hunan-niwed neu feddyliaid o hunan-ladd • Risg o orddosio • Ymddygiad rhywiol amhriodol • Rhywfaint o dystiolaeth o ymateb neu ymddygiad amhriodol • Hunan-barch neu hyder isel • Anawsterau â pherthnasau â chyfoedion • Patrwm ailadroddus ond beidio mynd i apwyntiadau'n effeithio ar les corfforol neu emosiynol • Plentyn neu berson ifanc yn cael ei effeithio'n fawr gan iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu drais domestig gan riant. • Troseddu	• Cam-drin neu gyhuddiadau'n bodoli • Anabledd corfforol neu ddysgu • Salwch meddwl, salwch difrifol neu gamddefnyddio sylweddau • Hanes y rhiant yn effeithio ar ei allu i ofalu am blentyn • Rhieni ddim yn ymateb i gyngor neu gymorth • Chwalu perthynas deuluol gymhleth • Rhianta annigol, anwadal neu anghyson • Rhiant wedi dioddef o gamffurfio organau benywaidd • Troseddu	• Plant yn dychwelyd o ofal • Gwahaniaethu'n digwydd • Eithrio cymdeithasol cronig • Amgylchedd ddim yn bodloni anghenion y teulu neu'n eu rhoi mewn perygl o niwed • Tlodi'n effeithio ar y gallu i ofalu am y plentyn • Risg o fagu ideolegol neu ddal safbwyntiau eithafol
YMYRRAETH ADFEROL Mae teuluoedd angen Asesiad Gofal a Chymorth ac yn ôl yr angen, Cynllun. Mae angen camau diogelu neu mae angen brys am ddiogelu ar blant a phobl ifanc (Gwasanaethau statudol)	• Pyllau cyson o iselder neu hunan-niwed • Risg ddifrifol i'w hun neu eraill • Lefel uchel o ofal yn effeithio ar les neu gyfleoedd bywyd plentyn • Anafiadau heb eglurhad neu amheus neu esboniadau anghyson • Esgelustod yn effeithio'n fawr ar ddatblygiad plentyn • Plentyn dan warchodaeth • Problemau iechyd meddwl difrifol • Problemau iechyd difrifol neu gronig • Plentyn wedi cam-drin plant eraill • Plentyn mewn risg unionsyth o ddioddef camffurfio organau benywaidd	• Rhieni heb allu ofalu am blentyn arall • Cam-drin domestig yn cael effaith hirdymor ar les plentyn • Rhieni'n cefnogi camffurfio organau benywaidd • Defnydd y rhieni o sylweddau neu broblemau iechyd meddwl yn rhoi'r plentyn mewn risg o niwed sylweddol • Rhieni ag anabledd dysgu sy'n effeithio ar ei allu i ofalu am blentyn heb gymorth	• Bod yn ddigartref neu mewn risg unionsyth o fod yn ddigartref • Plant mewn cysylltiad ag unigolyn y'i nodwyd sy'n risg i blant • Teuluoedd yn ceisio lloches heb ganiatâd i aros neu fynediad at arian cyhoeddus • Pryder sylweddol o radicaleiddio • Camfanteisio ar blant • Plant sy'n cael eu masnachu • Plant mewn perygl o briodas dan orfod, cam-drin seiliedig ar anrhydedd neu gamffurfio organau benywaidd


Cymorth yng Nghaerdydd

Mae integreiddio a rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau'n hanfodol i roi'r **lefel gywir o gymorth ar yr adeg gywir** i deuluoedd. Dylai'r gwasanaethau sy'n bodoli gael eu dwyn ynghyd i greu tri gwasanaeth newydd i roi cymorth i deuluoedd ar bob lefel o angen (Ffigur 2):

1. Y **Porth Teuluoedd** fydd y brif ffordd o atgyfeirio a gofyn am help gan roi gwybodaeth, cyngor a chymorth.
2. Bydd y gwasanaeth **Helpu Teuluoedd** yn rhoi ymateb cyflym mae arnynt angen ymyrraeth tymor byr.
3. Bydd y gwasanaeth **Cymorth i Deuluoedd** yn gweithio â theuluoedd sy'n wynebu materion mwy cymhleth neu ddifrifol.

Gweithiwr Allweddol (GA) yw prif weithiwr y teulu ar adeg benodol mewn amser. Gallai fod yn Ymgynghorydd Helpu Teuluoedd, Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd, Gweithiwr Cymdeithasol neu aelod o staff o asiantaeth allanol sydd eisoes yn gweithio gyda'r teulu.

Mae'r GA yn bwynt cyswllt allweddol a bydd yn ffurfio partneriaeth rhwng y teulu ac ymarferwyr o wasanaethau gwahanol (gweler tudalen 27 i gael rhagor o fanylion). Bydd hyn yn esmwytho'r broses drosglwyddo a'r cyflwyniadau rhwng y teulu ac unrhyw weithwyr newydd o asiantaethau gwahanol. Os yn briodol, gallant gynnal rhywfaint o ymyrraeth neu gymorth â'r teulu.



Ffigur 2: Model Gwasanaeth ar gyfer Teuluoedd yng Nghaerdydd.

Porth i Deuluoedd

Mae'r Porth i Deuluoedd yn cynnig llwybr atgyfeirio clir a hygyrch i unrhyw un â **phryderon lles am blentyn neu sydd am ddysgu mwy am y cymorth sydd ar gael i deuluoedd**. Gall gweithwyr proffesiynol neu aelodau'r cyhoedd wneud atgyfeiriadau neu geisiadau am gymorth neu gyfeirio at wasanaethau.

Mae'r Porth yn llwybr clir i wasanaethau cymorth eraill ac i Byrth eraill yn ôl yr angen. Mae modd defnyddio'r Porth drwy linell ffôn benodedig, e-bost a gwefan sydd wedi'u staffio gan Swyddogion Cyswllt dan oruchwyliaeth Gweithiwr Cymdeithasol. Caiff staff hyfforddiant Arwyddion Diogelwch a hyfforddiant diogelu i gynorthwyo ag ystod eang y materion a allai ddod drwy'r Porth.

Gall y Porth roi cymorth ar:

- Ymddygiad plant
- Gofal plant
- Cymorth i rieni
- Presenoldeb yn yr ysgol
- Cyflogaeth, arian a thai

Ymhlith gwasanaethau eraill y Porth mae:

- Gwybodaeth ac atgyfeirio i wasanaethau a Phyrth eraill,
- Asesiad a brysbennu priodol, ac
- Atgyfeiriad i wasanaethau a dargedir.

Yn yr achosion hyn, mae achosion sylfaenol teulu'n cael eu bodloni ond mae angen cyngor ar faterion penodol. Gall yr anghenion hyn gael eu bodloni drwy gyngor neu atgyfeirio at wasanaethau.

Er enghraifft, gallai teuluoedd gysylltu â'r Porth yn gofyn am ofal plant lleol, argaeledd gweithgareddau dros yr haf i blant neu ba fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

Bydd dau fath o atgyfeiriad i'r Porth i Deuluoedd:

- Y rhai sy'n gofyn am **gymorth cynnar**, a'r
- Rhai lle mae **pryder diogelwch** (MARF) clir.

Caiff atgyfeiriadau gyda phryder diogelu clir eu cyfeirio ar unwaith i Weithiwr Cymdeithasol y Porth fydd yn gwneud penderfyniad ar y gwasanaeth mwyaf priodol i'r teulu. Bydd yn cynnwys atgyfeiriadau uniongyrchol i wasanaethau statudol fel yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol yn ôl yr angen (Ffigur 3).

Enghreifftiau o Wasanaethau Cynhwysol

- Gwasanaethau leuenctid
- Tai
- Tîm Cyngor Ariannol
- Cynnig Gofal Plant 3-4 oed
- Rhaglenni rhianta grŵp yn y gymuned
- I Mewn I Waith
- Dechrau'n Deg
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Atgyfnerthu Cymunedol a Hyfforddi Teuluoedd
- Darpariaeth trydydd sector

Astudiaeth Achos

Bina a Saul

Mae Saul yn ffonio'r Porth i Deuluoedd yn holi am ofal plant lleol gan fod angen iddo gynyddu'i incwm ac mae wrthi'n gweithio'n rhan amser. Mae hefyd am gwrdd â rhieni eraill yn Adamsdown. Wrth sgwrsio mae'n datgelu ei fod ef a'i bartner newydd wahanol a bod ganddo unig warchodaeth dros ei ferch 3 oed, Bina. Mae ei fam yn byw yn Grangetown ac yn helpu Saul i allu gweithio'n rhan amser ond ni allai ofalu am ei hwyres yn llawn amser. Nid yw Saul ychwaith yn adnabod llawer o rieni eraill yn yr ardal ac mae'n credu y câi ef a Bina fudd o gyfleoedd cymdeithasol gwell.

Porth i Deuluoedd

Drwy'r Porth i Deuluoedd, dysgodd Saul ei fod yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg a'i fod yn gymwys am ofal plant rhan amser. Rhoddodd y Porth wybodaeth am grwpiau chwaraeon a chymunedol lleol yn Adamsdown fel y gallai Saul a Bina ddod i nabod teuluoedd eraill. Gallai'r Porth i Deuluoedd hefyd weld bod Saul yn manteisio ar yr holl fudd-daliadau yr oedd ganddo hawl iddynt a'i atgyfeirio i ddychwelyd i'r gwasanaeth neu ei Hyb Lleol am ymholiadau yn y dyfodol.

Debbie a Theresa


Mae Debbie yn cysylltu â'r Porth i Deuluoedd i ddod o hyd i ofal plant fforddiadwy i'w dau blentyn (10 mis oed, 2 flynedd 10 mis oed). Mae'r plentyn hyn wedi'i ddiagnosio gydag anabledd. Mae Debbie yn hunangyflogedig. Mae ei phartner, Theresa, yn gweithio fel cynorthwyydd addysgu'n llawn amser ond ar hyn o bryd mae hi ar absenoldeb mamolaeth a bydd yn dychwelyd i'r gwaith o fewn mis. Gwnaethon nhw dalu'n flaenorol am le meithrin gofal dydd preifat ond dechreuodd Theresa ofalu am y ddau blentyn pan roedd ar famolaeth. Mae Debbie'n ansicr sut i gefnogi ei theulu a hefyd cadw'i swydd.

Porth i Deuluoedd

Rhoddodd y Porth i Deuluoedd wybod i Debbie am y cynnig gofal plant a sut i wneud cais, sy'n golygu y bydd costau gofal plant yn bwysig i'r plentyn 2 oed, yn ogystal â sicrhau y bydd y plentyn yn manteisio ar le meithrin cyfnod sylfaen drwy gysylltu â'r tîm derbyn i ysgolion.

Mae'r Swyddog Cyswllt hefyd yn cyfeirio'r Rhiant at y Cyngor Budd-daliadau Lles i sicrhau bod y teulu'n cael ei gefnogi'n ariannol gyda'r anabledd a ddiagnoswyd. Caiff Debbie hefyd ei hatgyfeirio at wefan Busnes Cymru ar gyfer cyngor ar arbed arian a grantiau busnes i fusnesau bach.

Gwneir atgyfeiriad i TATA (Gwasanaeth Anabledd) am gyngor ar y cymorth sydd ar gael i'r teulu.



Ffigur 3: Darparu Cymorth i Deuluoedd yng Nghaerdydd.

Cymorth i Deuluoedd

Rhydd y Gwasanaeth Helpu Teuluoedd ateb cyflym i deuluoedd y mae arnynt angen **ymyrraeth tymor byr**. Rhoddir ffocws ar deuluoedd y mae'n **debyg y bydd angen cymorth neu ddiogelu mwy dwys arnynt yn y dyfodol os na chant gymorth ar y cam hwn**.

Mae'r Gwasanaeth Helpu Teuluoedd yn cynnwys tîm o ymgynghorwyr Helpu Teuluoedd sy'n gweithio'n agos â staff y Porth. Caiff staff eu hyfforddi'n llawn mewn Arwyddion Diogelwch, diogelu ac ystod o ymyrathau. Yn ôl yr angen, byddant yn ymweld â theuluoedd i gynnal asesiad pellach.

Mae Ymgynghorwyr Helpu Teuluoedd yn rhoi cyngor a chymorth i deuluoedd ac yn gyfrifol am gynnal rhai ymyriadau. Byddant yn cysylltu i ddechrau â gweithwyr proffesiynol priodol yn ôl y gofyn ac yn helpu'r teulu i gadw apwyntiadau.

Enghreifftiau o Wasanaethau

Ymhlith y gwasanaethau perthnasol mae'r holl wasanaethau a grybwyllwyd gynt a hefyd:

- Gwasanaeth Lles Teuluol Barnardos
- Cymorth Ieuencid
- Home Start
- Llesiant i Chi
- Cymorth Yn Ôl Yr Angen o ran Tai

Anne, Ayesha a Lee

Mae Ayesha yn galw'r Porth i Deuluoedd yn gofidio. Mae'n trafferthu rheoli ymddygiad ei merch 7 oed, Anne. Nid yw Anne yn byhafio gartref a bu achosion o ymddwyn yn fygythiol gartref ac yn yr ysgol. Ar ôl y digwyddiadau, mae Anne yn edifarhau'n fawr ac yn dweud ei bod yn teimlo na all reoli ei hymddygiad.

Mae'r ddau riant wedi cael problemau iechyd meddwl (gorbryder ac iselder) ac maent wrthi'n cael cymorth gan y meddyg teulu. Mae gan Ayesha hefyd anawsterau iechyd corfforol ac mae Lee newydd adael y gwaith i fod yn ofalwr llawn amser. Mae Lee yn llai hyderus yn ei allu fel rhiant nag Ayesha ac mae ymddygiad Anne yn llawer gwaeth pan fo hi gydag ef ben ei hun, sydd yn aml oherwydd amllder apwyntiadau meddygol Ayesha a'i blinder. Gwrthodwyd cais TAB i Lee yn ddiweddar, a oedd yn effeithio ar sefydlogrwydd y teulu ac maen nhw wedi defnyddio'r banc bwyd yn ddiweddar ac mewn ôl-ddyledion rhent.

Helpu Teuluoedd

Gwnaeth Ymgynghorydd Helpu Teuluoedd asesiad manylach â'r teulu. Cydnabu'r Ymgynghorydd yr anawsterau a wynebai'r teulu ond cafodd ei sicrhau bod y ddau riant yn gefnogol o'i gilydd ac eisoes yn cael help gan y meddyg teulu. Atgyfeiriwyd Ayesha a Lee at Wasanaeth Rhianta Caerdydd i gael cymorth â rhianta. Gyda chaniatâd y teulu, rhoddodd yr Ymgynghorydd wybod i ysgol Anne o'r sefyllfa – mae gan athro blwyddyn a nyrs ysgol Anne dealltwriaeth well ac maen nhw'n gweithio gydag Anne ar ei hymddygiad yn yr ysgol.

Gofynnodd yr Ymgynghorydd am Asesiadau Gofalwr i Lee ac Anne. Mae asesiad Gwasanaethau Oedolion yn golygu bod y tŷ'n fwy addas i anghenion corfforol Ayesha. Atgyfeiriodd yr Ymgynghorydd y teulu at Gymorth Tenantiaeth i gael help ag ôl-ddyledion rhent, helpu i wneud y mwyaf o incwm y teulu drwy wiriad budd-daliadau ac atgyfeirio Lee at wasanaeth arbenigol i'w gynorthwyo â'i apel TBA.

Datblygodd yr Ymgynghorydd a'r teulu gynllun sy'n disgrifio'r camau nesaf os nad yw pethau'n gwella.

Cymorth i Deuluoedd

Bydd y tîm Cymorth i Deuluoedd yn gweithio gyda theuluoedd sy'n wynebu materion mwy cymhleth neu ddifrifol. Rhoddir ffocws ar deuluoedd os oes **rîsg uniongyrchol y bydd angen diogelu neu ymyrraeth gofal arnynt os na chânt gymorth**. Bydd y gwasanaeth hefyd yn helpu teuluoedd sydd wedi gadael y gwasanaethau statudol ond y mae angen cymorth parhaus arnynt serch hynny.

Rhydd y tîm Cymorth i deuluoedd ymyriadau gwaith cymdeithasol dan arweiniad grŵp o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaeth yn cydweithio i gael yr ateb gorau i'r teulu. Mae Gweithwyr Cymorth yn cynnig cymorth dwys a sicr megis:

- Ymyriadau a rhaglenni teuluoel seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol
- Rhoi cymorth a help ymarferol
- Cydlynu dull amlasiantaeth yn ôl y galw (os yn Weithiwr Allweddol)
- Rhoi cyngor ar ystod o wasanaethau cymunedol a
- Mynd i'r afael â materion megis trais domestig, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl

Bydd staff yn asesu teuluoedd gyda'r meini prawf cymhwyso a gallant gamu i fyny ac i lawr o Wasanaethau Statudol fel y bo'n briodol (Atodiad 1).

Mae teuluoedd a staff yn cydweithio at feithrin gwydnwch drwy ganolbwyntio ar gryfderau'r teulu. Rhoddir cymorth dros gyfnod hwy gyda theuluoedd yn gallu lleihau neu ail-afael ar gymorth yn ôl yr angen pan fo amgylchiadau'n newid.

Mae rhannu gwybodaeth a data'n arbennig o bwysig yn Cymorth i Deuluoedd, rhwng ymarferwyr i sicrhau bod teuluoedd a phlant yn cael y lefel gywir o gymorth ar yr adeg gywir ac er mwyn monitro perfformiad teuluoedd a gwasanaethau.

Enghreifftiau o Wasanaethau

Mae'r gwasanaethau perthnasol yn cynnwys y gwasanaethau a grybwyllwyd gynt gyda chymorth gweithiwr cymdeithasol wedi'i gynnwys yn y Tîm Cyn Geni. Ymhlith yr enghreifftiau o wasanaethau ychwanegol mae'r Ganolfan Adnoddau Pobl Ifanc a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid.



Nicole a Joe

Mae Nicole yn cael trafferth nodi pa gymorth sydd ei angen ar ei theulu pan fydd yn galw'r Porth i Deuluoedd. Mae'n datgelu ei bod wedi defnyddio cyffuriau'n flaenorol a'i bod yn disgyn yn ôl oherwydd diffyg cymorth. Mae'n byw â'i gŵr, Joe, a'i dau fab 2 oed a 5 mis.

Mae Nicole yn datgelu ei bod wedi bod yn defnyddio crac cocên neu herion bob yn ail ddiwrnod. Dydi Joe ddim yn ymddiried yn Nicole i ofalu am y plant ar ei phen ei hun, sy'n effeithio ar eu perthynas. Er bod Joe heb â chymryd herion ers tair blynedd, mae'n poeni y gallai'r problemau â defnydd Nicole o gyffuriau effeithio ar ei gynllun gwella (mae'n mynychu gwasanaeth cymorth camddefnyddio sylweddau).

Mae Joe yn rhoi cymorth da i'r plant ond mae'n cael trafferth bod yn brif ofalwr. Dywed Joe fod Nicole yn fam dda ond ei bod wedi cael ei heffeithio gan golli'i thad yn ddiweddar. Nid oes gan y teulu unrhyw gymorth cymdeithasol neu deuluol ehangach yn lleol. Mae Nicole yn amharod i ymgysylltu ag adnoddau cymunedol i gael cymorth camddefnyddio sylweddau gan ei bod wedi cael cynnig sylweddau yn y gorffennol gan y mynychwyr eraill a theimla y gallai fod yn gam yn ôl i'r teulu. Mae Nicole yn datgelu'r arferai ei phlentyn hynaf fod ar y gofrestr Amddiffyn Plant hyd at flwyddyn yn ôl.

Cymorth i Deuluoedd

Cynhaliodd Gweithiwr Cymdeithasol asesiad manylach â'r teulu mewn person i gael syniad gwell o'r sefyllfa. Cydnabu'r Gweithiwr Cymdeithasol yr anawsterau y mae'r teulu'n eu hwynebu ond cydnabu ymataliaeth Joe rhag cyffuriau, y cymorth rhagorol mae'n ei roi i'r plant, parodrwydd y teulu i ofyn am help a'r ffaith y symudwyd y teulu oddi ar y CAP yn y gorffennol.

Atgyfeirir Nicole at y gwasanaeth profedigaeth i gael cymorth â cholli'i thad yn ddiweddar. Collodd ei swydd oherwydd ei newid ymddygiad ar ôl iddo farw. Mae'r Gweithiwr Cymorth yn gwneud yn siŵr bod y teulu'n cael y budd-daliadau priodol ac yn sicrhau y gallant ddal i wneud taliadau tenantiaeth. Fel yr unig enillydd, mae'n bwysig i Joe gael yr help sydd ei angen arno i gefnogi ei deulu'n ariannol ac yn emosiynol.

Cyflwynir opsiynau gwella o gam-drin sylweddau a grwpiau rhieni i'r rhai â phroblemau bod yn gaeth i sylweddau i'r teulu. Caiff Joe ei ganmol am ymrwnged a chymorth i barhau.

Er nad oes gan y teulu lawer o gymorth yn lleol, fe'u cyfeirir am ofal plant seibiant ac at Homestart i roi saib i'r ddau riant. Gyda chaniatâd y teulu, mae'r Gweithiwr Cymorth yn cysylltu ag ysgol y plentyn a'r Ymwelydd Iechyd i roi gwybod iddo am y sefyllfa i weld a all roi cymorth ychwanegol.

Datblygodd y Gweithiwr Cymorth a'r teulu gynllun sy'n disgrifio'r camau nesaf os nad yw pethau'n gweithio. Nid yw'r naill barti am i blant Joe a Nicole gael eu rhoi ar y CAP na'u symud o gartref y teulu. Mae cyfraniad gan bawb yn hanfodol nid yn unig i weithio i gefnogi Nicole drwy amser anodd ond i gadw'r teulu hwn gyda'i gilydd os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Anghenion Gofal a Chymorth a Diogelu

Atgyfeirir teuluoedd, pobl ifanc a phlant at wasanaethau statudol os, ar ôl asesiad, mae ganddynt anghenion na ellir eu bodloni ond drwy **gynllun gofal a chymorth**.

Mae Atodiad 6 yn amlinellu'r pedwar amod cymhwyso gorfodol sy'n rhaid i deuluoedd eu bodloni i **allu cael cynllun gofal a chymorth**. Yr unig eithriad i hyn yw os oes **pryderon diogelu**, ac os felly mae'r teulu'n gymwys yn awtomatig.

O ran meini prawf cymhwyso gofal a chymorth, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles [Cymru] 2014 yn nodi (Atodiad 1):

Cynhelir asesiad cymesur o angen sy'n ystyried:

1. Canlyniadau personol
2. Rhwystrau at gyflawni canlyniadau personol
3. Risgiau i'r teulu os na chyflawnir canlyniadau personol
4. Cryfderau a galluoedd

Mae gan unigolyn angen cymwys am ofal a chymorth os yw asesiad yn cadarnhau bod rhaid i'r awdurdod lleol baratoi a sicrhau ei fod yn darparu gofal a chymorth i'w alluogi i **oresgyn yr hyn sy'n ei rwystro rhag cyflawni ei ganlyniadau personol**.

Dylai'r teulu, person ifanc neu blentyn gael eu trin fel **partneriaid cydradd** wrth weithio gyda'r awdurdod lleol i asesu trefniadau gofal a chymorth nawr ac yn y dyfodol.

A oes modd ateb yr angen a nodwyd drwy gyfeirio at wasanaethau ataliol neu drwy ddull arall?

- Os **OES**, nid yw'r plentyn yn gymwys.
- Os **NAC OES**, neu fod **angen diogelu'r** plentyn, mae'n gymwys.

Enghreifftiau o Wasanaethau

Mae'r gwasanaethau perthnasol yn cynnwys y gwasanaethau a grybwyllwyd gynt gyda chymorth gweithiwr cymdeithasol yn ogystal â:

- Maethu
- Gofal preswyl
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Byddwch Ddiogel 13+
- Canolfan Adnoddau Pobl Ifanc (CAPI)
- Gwasanaethau Troseddau Ieuencid
- Friends 4 U
- Tîm Iechyd ac Anableddau Plant
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Tîm Dyletswydd Brys
- Anghenion Addysgol Arbennig

Diogelu yw amddiffyn plant ac oedolion rhag niwed. Gall niwed fod yn orfodol, rhywiol, seicolegol, camfanteisiol neu esgeulus. Mae addysgu'r sawl o'u cwmpas i gydnabod yr arwyddion, y peryglon a'r risg o niwed yn hanfodol.

Mae diogelu'n gyfrifoldeb ar bawb. Rhaid i bob unigolyn, gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth y gall i sicrhau bod yr holl blant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag niwed.

Bydd unrhyw blentyn sy'n wynebu neu mewn risg neu'n wynebu neu'n cael niwed sylweddol neu y mae pryderon difrifol am ei les yn gymwys i gael gofal a chymorth.

Polisi a Chanllaw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae'r gwasanaeth RISE-Caerdydd newydd yn cefnogi merched a'u plant sydd **mewn perygl unionsyth** sydd angen **rhywle diogel** fel lloches ond gall hefyd gefnogi merched â **gwasanaethau ataliol a chymorth** yn y cymorth. Mae'r gwasanaeth 24/7 yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu, y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau diogelwch holl aelodau'r teulu.

Mae gwasanaeth RISE-Cardiff yn rhoi ymyriadau arbenigol gan Eiriolwyr Personol Annibynnol (EPAu) sy'n arbenigwyr mewn ystod o faterion o ran Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Trais Rhywiol (VAWDASV) gan gynnwys:

- Cam-drin domestig a rheoli gorfodol;
- Treisio, cam-drin/trais rhywiol;
- Priodas dan orfod;
- Yr hyn a elwir yn drais ar sail anrhydedd;
- Stelcio;
- Aflonyddwch rhywiol;
- Ecsploetiaeth rywiol (gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw);
- Masnachu/caethwasiaeth fodern.

Caiff asesiad risg ei gynnal ar achosion gan ddefnyddio'r ffurflen asesu risg DASH-Ric a ddefnyddir ar lefel genedlaethol a barn broffesiynol i nodi unigolion fel naill ai risg Safonol, Canolig neu Uchel.



RISE
RECOVERY INFORMATION SAFETY EMPOWERMENT

Mae RISE-Cardiff yn asesu anghenion unigol ac a rennir dioddefwyr a'u plant. Gan ddefnyddio dull a arweinir gan anghenion, seilir ar gryfderau sy'n drawma-hysbys, mae RISE yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, bob amser yn ymwybodol o roi diogelwch dioddefwyr a'u plant wrth wraidd gwasanaethau. Gallant weithio'n ar wahân ag aelodau'r teulu a hefyd uned deuluol i feithrin gwydnwch, hyrwyddo annibyniaeth, annog grymuso, galluogi cyfrifoldeb, rheoli a dewis a hyrwyddo cyfranogiad y teulu yn y rhaglen gymorth gytûn.

Mae gwasanaethau'n ymateb i ac yn cofleidiol angen unigol a, lle y bo'n bosibl, mae'r un IPA'n cefnogi'r aelod teulu drwy ei lwybr cymorth. Mae gwaith gyda phlant yn briodol o ran oedran gan ymateb i lefelau angen a risg.

Dynion a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Comisiynwyd y gwasanaeth RISE yn bennaf i ddioddefwyr benywaidd yn dilyn adborth uniongyrchol gan oroeswyr, yn cydnabod bod dynion a merched yn profi cam-drin yn wahanol ac felly angen ymatebion a chymorth pwrpasol. Mae gwasanaeth i ddioddefwyr sy'n ddynion yn cael ei gomisiynu gyda phartneriaid awdurdod lleol dros Dde Cymru a Gwent ac mae'n annhebygol y bydd ar gael tan fis Ebrill 2020.

Yn y cyfamser, mae'r gwasanaeth RISE yn cynorthwyo â rhoi cymorth arbenigol o ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n ddynion, ac unrhyw blant yn eu gofal, a asesir yn risg Safonol neu Ganolig. Cefnogir y sawl a ystyrir yn risg Uchel gan yr Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol o Cymru Ddiogelach. Rhoddir llety diogel gan Ofal a Chymorth Gwalia yn y lloches benodol i ddynion yng Nghaerdydd.

Mae'r gwasanaethau ar gael yn cynnwys:

Siop Un Stop, sy'n cynnig:

- Cyngor, gwybodaeth ac atgyfeirio
- Asesiad brysbennu llawn o angen a risg
- Ymateb i holl atgyfeiriadau'r Heddlu (HCDau), i oedolion a phlant
- Rheoli atgyfeiriadau gan ddioddefwyr, ffrindiau, teulu a gweithwyr proffesiynol
- Manteisio ar wasanaethau eraill fel cyfreithwyr a Chyngor Ar Bopeth
- Cydlynu atgyfeiriadau caledu targed

Cymorth Llety, gan gynnwys:

- Mynediad i lety diogel priodol drwy system ar-lein Porth VAWDASV
- Cyfleuster Derbyn ac Asesu i gyflawni asesiadau llawnach o angen neu ar gyfer seibiant wrth dargedu caledu neu weithgaredd arall a gynhelir
- Ystod o lety argyfwng a lloches ar draws y ddinas
- Ystod o lety isgyfeirio â chymorth

Cymorth yn y Gymuned, gan gynnwys:

- Eiriolaeth a chymorth drwy'r systemau Cyfiawnder Troseddol a chyfiawnder sifil
- Mynediad i gwnsela seicolegol a phhecynnau cymorth adferol i ddioddefwyr a phlant
- Cymorth tai i atal colli tenantiaeth neu sefydlu rhai newydd ac ail-integreiddio i'r gymuned
- Ymyriadau hunangymorth priodol o ran oedran, naill ai'n unigol neu mewn grŵp
- Gwasanaethau penodedig ar gyfer merched beichiog i'r sawl â phlant dan 5 oed

Proses Asesu

Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, mae gan oedolion, plant a gofawyr hawl i asesiad pan fo'n ymddangos y gallai fod ganddynt angen am ofal neu gymorth, waeth beth yw lefel yr angen hwnnw ac adnoddau ariannol yr unigolyn. Rhaid i unrhyw asesiad fod yn gymesur i anghenion y teulu ac yn briodol i'r amgylchiadau.

Dylai unrhyw teulu sy'n cael ei atgyfeirio i wasanaethau ychwanegol gan y Porth Teulu gwblhau asesiad cymesur gan ddefnyddio'r dull Arwyddion Diogelwch gan ddefnyddio'r Fframwaith Asesu (Atodiad 7). Nid yw'r asesiad yn borth i ofal a chymorth eithr yn broses a all helpu teuluoedd i ddeall eu sefyllfa ac unrhyw heriau y gallent eu hwynebu wrth gyflawni eu canlyniadau personol.

Bydd y teulu'n cwblhau asesiad gydag Ymgynghorydd Helpu Teuluoedd neu Weithiwr Cymorth i nodi cryfderau, anghenion, sgiliau ac adnoddau. Os yw'r teulu'n rhoi caniatâd, gall ymarferwyr sydd eisoes wedi gweithio gyda'r teulu ymuno i helpu gyda chyflwyniadau a chynorthwyo ag asesiadau. Bydd y broses hon hefyd yn nodi unrhyw weithwyr proffesiynol neu wasanaethau a allai helpu teuluoedd ar eu taith.

Yna bydd yr aelod o staff yn cydlynu cyfarfod sy'n cynnwys y teulu ac unrhyw wasanaethau a nodwyd o'r blaen i helpu'r teulu i ymgysylltu â gwasanaethau priodol ac i ddatblygu cynllun sy'n cynnwys y cymorth sydd ei angen arnynt yn ogystal ag amserlenni monitro priodol, marciau cynnydd a chynlluniau wrth gefn os na wneir cynnydd o fewn yr amser gofynnol.

Er y gall teuluoedd fod yn rhan o ymyriadau byr neu fwy dwys â gwasanaethau, byddant bob amser mewn cyswllt â'r Ymgynghorydd Helpu Teuluoedd neu'r Gweithiwr Cymorth. Bydd gan wasanaethau gwahanol eu systemau data eu hunain ond bydd yr asesiad cymesur yn aros gyda'r teulu a'r Ymgynghorydd Helpu Teuluoedd neu'r Gweithiwr Cymorth i sicrhau nad oes angen i'r teulu ailadrodd eu stori.

Os yw teulu'n gweithio gyda gweithiwr cymdeithasol neu asiantaeth gofal cymdeithasol, gallai fod angen Asesiad Gofal Cymdeithasol Plant. Bydd yr asesiad cymesur yn aros gydag unrhyw deuluoedd sy'n cami i lawr i ymyrraeth ddwys o ofal statudol.

Polisi Cenedlaethol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn amlinellu pum elfen yr asesiad sy'n gofyn am i awdurdodau lleol:

- Asesu amgylchiadau'r teulu,
- Ystyried y canlyniadau personol
- Nodi unrhyw rwystrau at gyflawni'r canlyniadau hyn
- Asesu unrhyw risgiau i'r teulu os na chyflawnir eu canlyniadau
- Nodi cryfderau a galluedd y teulu

Am fwy o wybodaeth ewch i t7

Asesu Risg yng Nghaerdydd

Wrth asesu anghenion plant, mae'n hanfodol asesu risgiau, yn enwedig i blant yr amheuir eu bod mewn perygl o niwed.

Os penderfynir bod gan deulu anghenion gofal a chymorth, neu os oes pryderon diogelu, cânt eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau statudol (t18).

Wrth wneud penderfyniadau am lefel y cymorth y mae ei angen ar deulu, dylai ymarferwyr ystyried nifer o gwestiynau:

- Beth yw cryfderau'r teulu? Beth maen nhw'n ei wneud yn dda?
- Beth fydd yr effaith yn y dyfodol i'r plentyn os na fydd pethau'n newid?
- Beth ddywedodd y teulu am y pryderon hyn?
- Oes unrhyw ffactorau sy'n cymhlethu'r broblem?
- Pa gyngor neu gymorth sydd wedi ei roi yn barod? Beth yw barn gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r teulu?
- Pa gymorth sydd ei angen ar y teulu i adeiladu ar eu cryfderau?
- Ydy'r teulu'n cydsynio i rannu gwybodaeth?
- Ydy'r teulu'n cytuno i gynnig help a chymorth?
- Beth a wneir os na roddir cydsyniad?

Barn Broffesiynol Wybodus

Mae barn broffesiynol gadarn yn hanfodol i staff Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd wrth benderfynu ar lefel angen teulu. Nid yw'r dangosyddion y soniwyd amdanynt yn flaenrol ond yn enghreifftiau o sut y gallai anghenion gael eu mynegi. Mae pob teulu'n unigryw a bydd yn wahanol o ran cryfderau, adnoddau ac anghenion. Bydd angen i staff gyfathrebu â theuluoedd i gael dealltwriaeth lawn o'r ffactorau hyn a sicrhau y caiff y teulu'r lefel gywir o gymorth ar yr adeg gywir.

Dylai ymarferwyr geisio arweiniad a chymeradwyaeth gan eu rheolwr llinell neu arweinydd diogelu. Dylai unrhyw sgysiau a chmau gweithredu sy'n berthnasol o benderfyniadau asiantaeth gael eu dogfennu'n glir yng nghofnod y teulu. Gellir hefyd rhoi cyngor a chymorth wrth wneud penderfyniadau drwy oruchwyliaeth gweithiwr cymdeithasol drwy Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd.

Datrys gwahaniaethau

Gallai fod gan ymarferwyr o asiantaethau gwahanol wahaniaeth barn wrth asesu lefel angen teulu.

Mae cyfnewid syniadau a chael barn wahanol yn arwydd o feddwl datblygol ac mae'n ychwanegu gwerth at y drafodaeth. Dylai pob ymarferydd sy'n gweithio gyda theuluoedd allu rhannu ei safbwynt a herio'n adeiladol y penderfyniadau a'r camau gweithredu, neu eu diffyg, gan eraill.

Ni ddylai diffyg datrysiad i anghytundeb proffesiynol fod yn anghyfleus i'r teulu. Mae isgyfeirio bob amser yn ddull dewis wrth weithio at ddatrysiad.

Pan nad oes modd datrys anghytundeb rhwng ymarferwyr, dylent ymgynghori â'u rheolwr llinell a fydd yn gweithio gyda'r rheolwr llinell o'r asiantaeth arall i ddatrys y broblem. Os na ddatrysir anghytundeb ar y cam hwn, dylai rheolwr llinell ymgynghori ag uwch reolwr ymhob asiantaeth.

Os oes unrhyw bryderon am ddiogelu, dylai ymarferwyr ddilyn y Protocol i ddatrys gwahaniaethau proffesiynol fel y nodir ym Mwrdd Diogelu Plant Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg sydd yn: <https://www.cardiffandvalersb.co.uk/wp-content/uploads/CV-LSCB-Protocol-for-the-Resolution-of-Professional-Differences.pdf>

Cydsyniad a Rhannu Gwybodaeth

No single agency will ever have the full picture of a family's needs and circumstances. Therefore effective communication and information sharing between agencies is essential in joining up support to improve outcomes for families.

Consent is a key component of the Early Help service. Before a practitioner can share information or make a referral to other services for additional or targeted early help support, consent must be provided by the family (unless there are safeguarding concerns as outlined on pg 18).

Practitioners should be open, honest and respectful with families about what information could be shared as well as why it is being shared, how it will be shared and with whom. Practitioners should seek consent to information sharing unless it is unsafe to do so. Clearly recorded communication within and between agencies should be as accurate and complete as possible.

The Early Help Referral contains a 'consent to share information' section. Families can state which services they agree can receive their shared information. Consent to further information sharing can be sought at any point during the assessment process.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar yn cydymffurfio â rheoliadau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yr UE. Mae Erthygl 5(1) y GDPR yn ei wneud yn ofynnol i ddata personol gael ei:

- Brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn ddidwyll
- Casglu at ddiben penodol, amlwg a chyfreithlon
- Digidol ac eto'n briodol ac yn gyfyngedig i'r hyn sydd ei angen at ddibenion casglu data
- Cywir a chyfoes
- Cadw ar ffurf nad yw'n caniatáu adnabod personol am fwy nag sydd angen at ddibenion casglu data
- Prosesu mewn ffordd ddiogel

Ewch i <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/principles/i-gael-rhagor-o-wybodaeth>.

Nid yw caniatâd ond yn ddilys os yw'n:

- Wirfoddol,
- Gwybodus, ac
- Wedi'i roi gan unigolyn â'r gallu i wneud hynny.

Arfer da wrth rannu gwybodaeth

Cyn mynd ymlaen i ddisgrifio elfennau o arfer allweddol o ran cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, mae'n bwysig nodi y gall ymarferwyr bob amser ceisio cyngor drwy oruchwyliaeth gweithiwr cymdeithasol drwy Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd ar 'sail di-enw'.

- Dylai ymarferwyr ystyried pa un ai a yw rhannu gwybodaeth yn ymateb cymesur yn seiliedig ar lefel y risg y mae'r teulu'n ei hwynebu
- Dylai'r holl rannu ddigwydd ar sail angen i wybod. Dylai unrhyw wybodaeth a rennir gael ei nodi'n gyfrinachol a pheidio â chael ei datgelu heblaw am at ddibenion diogelu plant.
- Mae cael cydsyniad ar sail gwybodaeth plant a/neu rieni'n hanfodol pan fo asiantaethau am rannu gwybodaeth gyfrinachol. Dylai teuluoedd wybod sut y gallai diffyg cydsyniad effeithio ar yr help y gall asiantaethau ei roi.
- Bydd asiantaethau'n parchu dymuniadau'r sawl nad ydynt am roi cydsyniad, heblaw mewn sefyllfaoedd lle mae diogelwch plant neu eraill mewn perygl neu pan fo'n amhriodol ceisio cytundeb.
- Os na roddir caniatâd ond credir bod y plentyn yn dioddef neu mewn perygl o niwed sylweddol, **gellir rhannu gwybodaeth** ar draws asiantaethau ond **dylid rhoi gwybod i rieni** y bydd hyn yn digwydd oni fyddai gwneud hynny'n cynyddu'r risg o niwed i'r plentyn.

Pobl Ifanc a Chydsyniad

Rhaid gofyn i rieni neu ofalwyr roi caniatâd i rannu gwybodaeth ar ran plant 12 oed ac iau. Gellir rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth gan bobl ifanc 16-17 oed. Gall pobl ifanc 13-15 oed roi caniatâd ar yr amod eu bod yn cael eu hystyried yn alluog i ddeall y materion a gwneud penderfyniad gwybodus.

- Nid oes angen ceisio caniatâd pe byddai gwneud hynny'n:
 - o Cynyddu'r risg o niwed i'r plentyn,
 - o Cyfaddawdu ymchwiliad troseddol, neu'n
 - o Achosi oedi annerbyniol wrth weithredu i ddiogelu'r plentyn.
- Os caiff gwybodaeth ei rhannu, caiff angenrheidrwydd, perthnasedd, cywirdeb, amseroldeb a diogelwch y wybodaeth a rennir eu cofnodi. Os na cheir cydsyniad, bydd ymarferwyr yn cofnodi pam y credid bod diogelwch y plentyn mewn perygl neu pam yr oedd yn amhriodol ceisio caniatâd.



Rôl y Gweithiwr Allweddol

Dangoswyd bod teuluoedd, pobl ifanc a phlant yn manteisio o gael un person allweddol (y gweithiwr allweddol) wrth gymryd rhan mewn asesiadau a chynlluniau gweithredu cydlynol aml-asiantaeth.

Y Gweithiwr Allweddol fydd y prif bwynt cyswllt â'r teulu. Ei rôl fydd ffurfio partneriaeth rhwng y teulu ac ymarferwyr o wasanaethau gwahanol. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng asiantaethau yn hanfodol i roi'r cymorth cywir i'r teulu.

Wrth siarad â Swyddog Cyswllt, gofynnir i deuluoedd a oes unigolyn addas a all fod yn Weithiwr Allweddol iddynt a ph'un a yw'n cydsynio i gynnwys yr unigolyn hwnnw: "A oes gweithiwr allweddol yr ydych yn gweithio ag ef yr hoffech ei gynnwys yn eich asesiad a'ch cynllun cymorth?"

Bydd teuluoedd yn gwybod o'u trafodaeth â SC y bydd Ymgynghorydd neu Weithiwr Cymorth Helpu Teuluoedd yn cysylltu'n fuan i drefnu cyfarfod.

Mae'r cynllun gweithredu a grëir â'r teulu a'r asiantaethau perthnasol yn pennu cydgyfrifoldeb drwy amlinellu tasgau unigol. Gallai'r Gweithiwr Allweddol gael ei bennu ei rôl o fewn y cynllun hwn os yw'n briodol ond bydd yn bennaf yn gweithio i hwyluso cyflwyniadau i weithwyr newydd a symud rhwng gwasanaethau. Gallai'r Gweithiwr Allweddol fod yn wahanol neu aros yr un fath bob tro y bydd teulu'n symud rhwng lefelau cymorth.

Mae'r Gweithiwr Allweddol yn atebol i'w asiantaeth ei hun ar gyfer cyflawni'r rôl ond nid yw'n atebol am weithredoedd ymarferwyr ac asiantaethau eraill.



Dull Ffocws Ar Y Teulu

Mae gallu rhieni i fodloni anghenion eu plant yn gallu cael ei effeithio gan eu hanghenion eu hunain. Bydd gwasanaethau i deuluoedd â rhiant gydag angen ychwanegol (e.e. problem iechyd meddwl, anabledd dysgu) yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch plant, cynnig cymorth i osgoi argyfyngau a gwasanaethau os ydynt yn digwydd, ac yn y pen draw hybu gwydnwch a lles aelodau'r teulu, heddiw ac yn y dyfodol.

Mae dull **Ffocws Ar Y Teulu** yn annog gwasanaethau i edrych ar y teulu cyfan wrth gydlyn gofal a gwaith gyda pholisi 'dim drws anghywir' gyda phob pwynt mynediad yn agos i system o gymorth cydlynol.

Y ffordd orau o roi cymorth cynnar wedi'i dargedu i deuluoedd â phroblemau cymhleth yw cynllun cydlynol a hwylusir gan Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd, a lunnir ar y cyd â'r teulu ac asiantaethau eraill lle y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda theuluoedd i nodi cryfderau, anghenion, sgiliau ac adnoddau a gwneud eu cynlluniau eu hunain i wella canlyniadau.

Yna bydd ymarferwyr yn monitro'r cynllun, cydlynu gwasanaethau a sicrhau bod y cynllun yn bodloni anghenion newidiol y teulu. Grymusir

teuluoedd a phlant i fod yn gyfrifol a gwneud y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau

Dylai cynlluniau amlinellu'n glir sut y caiff cynnydd ei fesur gydag amserlenni realistig ar gyfer y newidiadau gofynnol. Caiff cynnydd (a diffyg cynnydd), sut y caiff ei fesur a chan bwy ei gynnwys mewn cyfarfodydd adolygu diweddarach.

Caiff cynllun wrth gefn, sy'n amlinellu beth fydd yn digwydd os na wneir cynnydd o fewn yr amserlen a nodir, ei drafod â'r teulu a'i gofnodi.

Mae pob ymarferydd yn gyfrifol am y cynllun a sicrhau y cyflawnir y camau gweithredu'n amserol. Mae ymarferwyr yn atebol i'w hasiantaeth eu hunain am y gwasanaethau y maen nhw'n eu rhoi i deuluoedd, pobl ifanc a phlant.

Cefnogi pobl ifanc a phlant ag anabledd

Cred Caerdydd fod plentyn ag anabledd yn blentyn yn gyntaf ac y dylai gael ei annog a'i helpu i fanteisio ar yr un cymorth a chyfleoedd â phlant eraill heb anableddau. Dywed gwaith ymchwil wrthym fod plant ag anableddau deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso [7] felly mae nodi anabledd ar gam atgyfeirio cynnar yn hanfodol. Er y dylai'r holl wasanaethau fod ar gael i deuluoedd sydd â phlentyn neu blant gydag anghenion ychwanegol, bydd gwasanaethau arbenigol hefyd ar gael i'w sawl sydd eu hangen.

Mae plant a phobl ifanc anabl yn rhan o'r broses o ddarparu'r holl wasanaethau. Bydd Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn gweithio gyda gwasanaethau anabledd i sicrhau bod anghenion y teulu'n cael eu hasesu a'u bodloni gan y gwasanaethau mwyaf priodol.

Gallai anghenion penodol a allai effeithio ar deuluoedd ymwneud ag:

- anableddau corfforol neu ddysgu
- nam synhwyrdd
- salwch cronig

Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [2] rhagdybir bod plentyn anabl angen gofal a chymorth yn ogystal â, neu yn lle, y gofal a chymorth a roddir gan deulu'r plentyn'. Gallai'r grŵp hwn fod yn fwy agored i niwed gyda'u hiechyd a'u lles yn debygol o fod wedi'i amharu heb roi cymorth cynnar, ymyrraeth ddwys neu ymyrraeth adferol.

Bydd plant ag anableddau a'u teuluoedd yn gofyn am lefel wahanol o gymorth a gwasanaethau yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol, natur anabledd y plentyn a'r effaith ar y teulu.

Nid yw gwasanaethau statudol o reidrwydd y gwasanaeth gorau i nodi a bodloni anghenion plant ag anableddau a'u teuluoedd cyn belled ag y bod y gwasanaeth yn gweithio gyda'r teulu ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y teulu ac y gall roi gwybodaeth am gymorth lleol a sut i fanteisio arno.

Mae Ffocws Ar Anabledd Teuluoedd Yn Gyntaf Caerdydd yn rhoi gwasanaethau i helpu pobl ifanc a phlant gartref ac i fod yn rhan o'r gymuned leol – rhagor o wybodaeth yn <https://www.actionforchildren.org.uk/in-your-area/services/disability/cardiff-families-first-disability-focus/>



Cefnogi pobl ifanc

Dangosodd cyfrifiad 2011 fod gan Gymru'r gyfradd uchaf o ofalwyr dan 18 oed yn y DU a chyfrifwyd bod tua 30,000 o ofalwyr dan 25 oed yng Nghymru. Fodd bynnag mae'n debygol bod y nifer yn uwch o lawer gan fod prosesau i nodir gofalwyr ifanc yn aml yn anwadal.

Gosododd Deddf Plant 1989 ddyletswydd ar awdurdodau lleol i roi asesiad o'r angen i Ofalwyr Ifanc. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 wedi atgyfnerthu'r cynnig i Ofalwyr Ifanc. Yn y Ddeddf hon, nodir gofalwr fel "rhywun sy'n rhoi neu'n bwriadu rhoi gofal i oedolyn neu blentyn anabl".

Mae gan Awdurdodau Lleol a byrddau iechyd ddyletswydd i roi cymorth i ofalwyr. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n arfer ei swyddogaethau dan y Ddeddf i 'geisio hyrwyddo lles' gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr

ifanc) sydd angen cymorth. Hefyd, rhaid i unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf ystyried Rhan 1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gan gynnwys 41 erthygl CCUHP.

Mae Caerdydd a Bro Morgannwg wrthi'n gweithio mewn partneriaeth i adolygu eu llwybrau i ofalwyr ifanc er mwyn cynnal asesiad a chefnogi swyddogaeth sy'n cydymffurfio â'r ddyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol.

Caiff asesiadau i'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc eu cynnal ar lefel ataliol, fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen ymateb statudol ar rai gofalwyr ifanc i'w hanghenion. Mae'n bwysig i anghenion y gofalwr ifanc a'r teulu cyfan gael eu nodi i'w cefnogi ef a'r teulu wrth fanteisio ar wasanaethau sy'n gymesur i'w hanghenion cyn gynted â phosibl.



Adborth Teulu

Bydd adborth yn helpu i wella Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd gan ei fod yn dweud wrthym am eich profiad gyda ni a sut mae angen i ni wella yn y dyfodol. Mae'r dudalen hon yn disgrifio sut i roi adborth i Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd.

Canmoliaeth

Defnyddier yr adran canmoliaeth yn yr adran Adborth i roi gwybod i ni am rywbeth wnaethom yn dda. Yn dibynnu ar y wybodaeth a roddwch, byddwn yn gallu rhoi'r person neu wasanaeth perthnasol.

Bydd clywed yr adborth cadarnhaol hwn yn dweud wrthym pam fod hyn wedi cael effaith gadarnhaol arnoch chi neu'ch teulu gan awgrymu y dylem ddal ati.

Cysylltu â ni

CyswlltFAS@caerdydd.gov.uk

Ffôn: 03000 133 133

Cwynion

Mae Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn ddull cydlynol newydd o roi y lefel gywir o gymorth i deuluoedd ledled Caerdydd ar yr adeg gywir. Gallai fod mân broblemau wrth gyflwyno'r gwasanaeth. Rydym yn croesawu adborth ar ein gwasanaeth fel y gallwn wneud pethau'n gywir y tro cyntaf neu yn y dyfodol.

Mae gan unrhyw deulu sy'n anfodlon ar wasanaeth a gawsant hawl i gwyno. Bydd cwynion bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif. Bydd Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd bob amser yn ymateb i gydnabod eich adborth.

Defnyddio'r tab cwyno yn yr adran Adborth i'n helpu i wneud newidiadau i'n gwasanaethau a'u gwella. Dylai unrhyw anghytundeb proffesiynol ddilyn y protocol a ddisgrifir yn yr adran 'Barn broffesiynol a datrys gwahaniaethau' uchod.

Cyfeiriadau

- [1] Cardiff Partnership Early Intervention and Prevention Steering Group, "Early Help Strategy," Cardiff Council , Cardiff , 2014.
- [2] Welsh Government, "Social Services and Well-being (Wales) Act 2014," Welsh Government, Cardiff, 2014.
- [3] Public Health Wales NHS Trust , "Welsh Adverse Childhood Experiences (ACE) Study," Public Health Wales NHS Trust , Cardiff , 2015.
- [4] Welsh Government, "Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015," Welsh Government, Cardiff , 2015.
- [5] Early Intervention Foundation, "Why early intervention matters?," Soapbox , 2018. [Online]. Available: <https://www.eif.org.uk/why-it-matters/why-is-it-good-for-children-and-families/>. [Accessed 29 November 2018].
- [6] Families First, "Families First Programme Guidance," Welsh Government, 2017.
- [7] NSPCC, "'We have the right to be safe' Protecting disabled children from abuse," NSPCC, 2014.
- [8] Welsh Government , "Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Act (Wales) 2015," Welsh Government, Cardiff, 2015.
- [9] UNICEF, "United Nations Convention on the Rights of the Child," United Nations , 1990.
- [10] Cardiff Council , "Child Friendly Cardiff Strategy," Cardiff Council , 2018.
- [11] Cardiff Partnership, "Cardiff Well-Being Plan," Cardiff Partnership, Cardiff , 2018-2023.
- [12] Children's Commissioner for Wales, "A Children's Right Approach for Wales," Welsh Government, Cardiff, 2017.

Atodiad 1: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Noda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014:

Meini Prawf Cymhwyso am Ofal a Chymorth

Cynhelir asesiad cymesur o angen sy'n ystyried:

1. Canlyniadau personol (plant):
 - Gallu cynnal arferion domestig
 - Gallu cyfathrebu
 - Diogelu rhag cam-drin ac esgeulustod
 - Bod yn rhan o waith, addysg, dysgu a hamdden
 - Cynnal neu ddatblygu teulu neu berthnasau arwyddocaol eraill
 - Datblygu a chynnal perthnasau personol a bod yn rhan o'r gymuned
 - Cyflawni nodau datblygiadol
2. Rhwystrau at gyflawni canlyniadau personol
3. Risgiau i gyflawni canlyniadau personol
4. Cryfderau a galluedd

A oes modd ateb yr angen a nodwyd drwy gyfeirio at wasanaethau ataliol neu drwy ddull arall?

- Os oes, nid yw'r plentyn yn gymwys.
- Os nac oes, neu fod angen diogelu'r plentyn, mae'n gymwys.

Mae'r Ddeddf yn diffinio **lles** o ran person, o ran unrhyw un o'r canlynol -

- a) iechyd a lles corfforol a meddwl;
- b) diogelu rhag cam-drin ac esgeulustod;
- c) addysg, hyfforddiant a hamdden;
- d) perthnasau domestig, teuluol a phersonol;
- e) cyfraniad at gymdeithas;
- f) sicrhau hawliau;
- g) lles cymdeithasol ac economaidd;
- h) addasrwydd llety byw.


O ran plentyn mae "lles" hefyd yn cynnwys -

- a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol;
- b) dehonglir y gair "lles" at ddibenion Deddf Plant 1989

O ran oedolyn mae "lles" hefyd yn cynnwys -

- a) rheolaeth dros fywyd dydd i ddydd;
- b) gweithio.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol A Llesiant – Siart Llif ar y Ddeddfwriaeth:



Siart llif o

https://socialcare.wales/cms_assets/hub-downloads/Flowchart_

port.pdf

How_to_access_care_and_sup

Atodiad 2: Profiadau Plentyndod Andwyol



Atodiad 3: Enghreifftiau o wasanaethau ar bob lefel

Nod Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yw rhoi'r lefel gywir o gymorth i deuluoedd ar yr adeg gywir i feithrin gwydnwch mewn teuluoedd a'u helpu i gyflawni eu canlyniadau gorau. Mae'r siart canlynol yn disgrifio enghreifftiau o wasanaethau ar y lefelau angen a ddisgrifir yn Ffigur 1. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o wasanaethau, eithr yn enghreifftiau i'n helpu i ddisgrifio lefel yr anghenion a gefnogir gan y gwasanaethau hyn. Gallai fod angen i rai teuluoedd fanteisio ar ystod o wasanaethau a gallai eraill gael budd tebygol o ryngweithio â gwasanaeth unigol. Bydd y Swyddog Cyswllt Porth, Ymgynghorydd neu Weithiwr Cymorth Helpu Teuluoedd yn gweithio gyda'r teulu i benderfynu ar ba lefel neu ystod o wasanaethau sy'n briodol iddynt a'u sefyllfa - mae pob teulu'n unigryw.

Cynhwysol a Chynhwysol+	Ymyrraeth Gynnar	Ymyrraeth Ddwys	Ymyrraeth Adferol
- Porth I Deuluoedd - Hybiau - Rhaglenni rhianta grŵp yn y gymuned - Gwasanaethau Iechyd (meddyg teulu, deintydd, bydwreigiaeth) - Cynnig Gofal Plant 3-4 oed - Cyngor a chymorth tai - Tîm Cyngor Ariannol - I Mewn I Waith - Hyfforddiant Sgiliau Gwaith - Dechrau'n Deg - Gwasanaethau Lles Cymunedol - Banciau bwyd - Cyrsiau dysgu i oedolion - Cyngor ar Bopeth - Childline - Cymorth i Gyn-filwyr	- Cymorth i Deuluoedd - Gwasanaeth Lles Teuluol Barnardos - Cymorth Ieuenctid (cyn/ar ôl 16) - Right 2 - Rhianta Home Start - Llesiant i Chi - Cymorth Yn Ôl Yr Angen o ran Tai - RISE - VAWDASV - Gwasanaeth Mentora Cyfoedion - Gwasanaethau Ieuenctid - Gweithredu Dros Blant - Tîm Ymyrraeth Gynnar (Gwasanaethau Plant) - Therapydd Iaith a Lleferydd	- Cymorth i deuluoedd - Ymyriadau rhianta yn y cartref - Cymorth gweithiwr cymdeithasol - Atal argyfwng ac ymyrryd - Sgiliau Byw - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) - Gofal seibiant - Gwasanaethau Seicosis Pwl Cyntaf - Gweithredu Dros Blant - StaySafe - Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid - Canolfan Adnoddau Pobl Ifanc	- Hyb Diogelu Amlasiantaethol - Maethu - Preswyl - Byddwch Ddiogel 13+ - Canolfan Adnoddau Pobl Ifanc - Tîm Iechyd ac Anableddau Plant - Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd - Tîm Dyletswydd Brys - Anghenion Addysgol Arbennig - Gwasanaeth Statudol Troseddau Ieuenctid - Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC)

Atodiad 4: Adnodd Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gofynion Cofnodi Cyffredinol ar gyfer Asesu Oedolion, Plant a Gofalwyr

Dolenni defnyddiol

Cod Ymarfer ar Asesu Anghenion Unigolion (Rhan 3):

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part3en.pdf>

Cod Ymarfer ar Fodloni Anghenion (Rhan 4):

<http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt4en.pdf>

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015:

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1305/pdfs/wsi_20151305_mi.pdf

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwyster) (Cymru) 2015

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1578/pdfs/wsi_20151578_mi.pdf

Yr Isafswm Set Data Craidd Cenedlaethol

Gweler y *Cod Ymarfer ar Asesu Anghenion Unigolion* (paragraffau 56-60) i gael rhagor o wybodaeth:

Rhif y GIG Teitl Cyfenw Enw(au) cyntaf Enw a Ffefrir Cyfeiriad a Chod Post Dyddiad geni Ffôn Cyfeiriad e-bost Rhywedd Enw a chyfeiriad meddygfa Enw a chyfeiriad ysgol (i blant) Galwedigaeth	Pa asesiadau eraill a wnaed gan asiantaethau eraill? Iaith ddewis neu ddulliau cyfathrebu Gofynion hygyrchedd: Enw(au) Gofalwr(wyr) / Pobl â Chyfrifoldeb Rhiant Perthynas Manylion Cyswllt Gofalwr(wyr) / Pobl â Chyfrifoldeb Rhiant Yw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?	Manylion cyswllt y Prif Gydgyssylltydd Asesu (y person) sy'n cyflawni'r asesiad, ac i bwy mae'n gweithio) Manylion cyswllt y Prif Gydgyssylltydd Asesu (yr unigolyn sy'n trefnu unrhyw ofal a/neu gymorth sydd ei angen, ac i bwy mae'n gweithio) Gwybodaeth wedi'i chymryd gan (enw) (os yn wahanol i'r Prif Gydgyssylltydd Asesu) Dynodiad Sefydliad Dyddiad
---	---	---

Noder: gellir casglu data craidd pellach fel sy'n berthnasol i'r amgylchiadau ac anghenion yr unigolyn e.e. Rhif achos yr Awdurdod Lleol (os yn berthnasol), rhif Fisas a Mewnfudo y DU (os yn berthnasol) a data iechyd ehangach i bobl hŷn.

Gwybodaeth ychwanegol i'w chael

Gofalwyr	- Ydy'r person sy'n cael ei asesu'n ofalwr? - Y rôl ddi-dâl a gyflawnir gan ofalwyr, rhieni, partneriaid ac aelodau eraill y teulu dan ofal y person - Os oes gan berson ofalwr, a yw'r gofalwr yn fodlon ac yn gallu cyfrannu at y gofal a chymorth? - Ydy asesiad wedi'i gynnig i'r gofalwr/wyr?
Plant	- Ydy'r plentyn mewn perygl o gam-drin, esgeulustod neu niwed a'r camau a gymerwyd - Yw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant? - Cadarnhad bod y plentyn wedi'i weld (os ddim noder pam) - Cadarnhad bod y plentyn wedi'i weld yn unigol (os ddim noder pam)
Anghenion Unigol Ehangach	- Ydy'r plentyn mewn perygl o gam-drin, esgeulustod neu niwed a'r camau a gymerwyd - Cadarnhad bod cynnig rhagweithiol wedi'i wneud am wasanaeth Cymraeg - Ydy'r person yn ei ystyried ei hun yn anabl? - Ydyw am fod ar y gofrestru anabledd berthnasol? (cynnwys dyddiad cofrestru) - Ydy'r person yn fyddarddall? - Galluedd meddwl y person sy'n cael ei asesu - Ystyriaethau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS)
Proses	- Ydy hwn yn asesiad cyntaf neu'n ail asesiad (e.e. ar ôl adolygiad)? - Pwy ofynnodd am yr asesiad hwn? (e.e. y person, gofalwr y person, rhiant y person) - A yw asesiadau'n cael eu gwneud ar wahân, yn erbyn dymuniadau teuluoedd, gofalwyr a phobl sy'n derbyn gofal? (Os ydy, eglurwch y rheswm pam) - Ydy'r person wedi gwrthod cynnig asesiad o angen a dyddiad? Os yw asesiad yn cael ei gynnal pan fo'r person wedi gwrthod lle eglurer y rhesymau (gweler paragraffau 107-115 y Cod Ymarfer ar Asesu Anghenion Unigolion) - Cydsyniad i'r wybodaeth a gesglir at ddibenion yr asesiad gael ei rhannu rhwng yr ymarferwyr perthnasol a'r dyddiad – Noder – Rhaid egluro'n glir y rhesymau dros hyn (gweler paragraffau 101-106 y Cod Ymarfer ar Asesu Anghenion Unigolion) - Cadarnhad bod y person yn gytuno i'r hyn a gofnodir (gallai hyn gynnwys nodi safbwyntiau gwahanol ymarferydd a'r person, y teulu ac ati) - Cadarnhad bod copi o'r asesiad a gynigiwyd i'r person neu ei deulu (Noder: Mae'n rhaid cynnig copi o'r asesiad a dylid ei ddarparu).

Pum elfen allweddol asesiad

Gweler y *Cod Ymarfer ar Asesu Anghenion Unigolion* (paragraffau 61-65 ac Atodiad 1) i gael rhagor o wybodaeth. Gellir ceisio rhagor o arweiniad yn:

- I oedolion (paragraffau 66-67)
- I blant (paragraffau 68-79, Atodiad 2)
- Gofalwyr (paragraffau 80-84)

Yn rhan o'r drafodaeth 'Beth Sy'n Bwysig?' â'r teulu, person ifanc neu blentyn, dylai'r ymarferydd:

- Asesu amgylchiadau'r teulu,
- Ystyried y canlyniadau personol,
- Nodi unrhyw rwystrau at gyflawni'r canlyniadau hyn,
- Asesu unrhyw risgiau i'r teulu os na chyflawnir eu canlyniadau
- Nodi cryfderau a galluedd y teulu

Camu at gyflawni canlyniadau personol

Mae modd i'r awdurdod lleol ac eraill weithredu i helpu'r person i gyflawni'r canlyniadau hynny (gan gynnwys camau i'w cymryd gan y person y mae ei anghenion yn cael eu hasesu a/neu ei ofalwr).

Cofnodi sgôr ar gyfer sut mae'r person yn teimlo o ran ei ganlyniadau. Mae'n rhaid nodi sgôr gan ddefnyddio graddfa o 1-10; 1 yw'r sefyllfa waethaf y gallant fod ynddi a 10 ydy'r gorau. Dylid defnyddio'r sgôr fel sylfaen ar gyfer adolygu'r asesiad a chynllun gofal.

Mae templed enghreifftiol ar gyfer dod i gyfanswm isod:

Canlyniad	Canlyniad Lles y Genedl	Sgôr sylfaenol	Cam gweithredu	Gan bwy	Dyddiad

Datganiad ar sut y mae'r camau a nodwyd yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau personol

Sut bydd y camau a nodwyd yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniad personol neu'n diwallu'r anghenion a nodwyd gan yr asesiad? Mae hwn yn berthnasol i'r anghenion hynny y bwriedir eu diwallu drwy gynnig gofal a chymorth a'r anghenion y bwriedir eu diwallu drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol, cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth, neu unrhyw ddull arall.

Canlyniadau'r asesiad

Gweler y Cod Ymarfer ar *Asesu Anghenion Unigolion* (paragraffau 116-122) i gael rhagor o wybodaeth.

Nodir y meini prawf cymhwyso i oedolion, plant a gofalwyr yn *Rheoliadau Gofal A Chymorth (Cymhwyso) (Cymru) 2015* a'r Cod Ymarfer ar Fodloni Anghenion.

Ar gyfer yr anghenion a nodir yn yr asesiad, nodwch ba un o'r canlyniadau hyn sy'n berthnasol:

1. Nid oes unrhyw anghenion gofal a chymorth i'w diwallu;
2. Mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol;
3. Gellir diwallu anghenion drwy gynnig gwybodaeth, cyngor neu gymorth;
4. Gellir diwallu anghenion drwy gynnig gwasanaethau ataliol;
5. Gellir diwallu anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn ei hun (gyda chymorth gan eraill neu heb gymorth gan eraill);
6. Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall, at ddiwallu'r anghenion;
7. Gellir ond diwallu anghenion drwy roi cynllun gofal a chymorth ar waith, neu gynllun cymorth (mae anghenion yn gymwys);
8. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod angen bodloni'r anghenion er mwyn amddiffyn y person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu, os yw'n blentyn, niwed arall neu risg o niwed o'r fath.

Atodiad 5: Dangosyddion o angen datblygu plant

Dangosyddion Angen Enghreifftiol: Lefel 1 – Cynhwysol

Plant a phobl ifanc y mae eu hanghenion wedi'u bodloni gan wasanaethau cynhwysol neu ymateb un asiantaeth syml

Anghenion Datblygiadol Plentyn					Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol	Gallu Rhianta
Iechyd	Addysg	Emosiynol ac Ymddygiadol	Hunaniaeth			
Cyrraedd cerrig milltir datblygiadol	Cyflawni lefelau priodol a disgwyledig yn y cyfnod allweddol	Perthnasau o safon	Yn dangos teimladau o berthyn a derbyn gan y teulu / grŵp cyfoedion		Incwm digonol gydag adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol i fodloni anghenion plant	Diogelu rhag perygl / niwed sylweddol yn y cartref a'r gymuned
Corfforol iach	Presenoldeb boddhaol mewn meithrinfa / ysgol / coleg (90% neu fwy)	Yn dangos ymatebion priodol o ran teimladau, gwydnwch a chamu gweithredu.	Ymdeimlad positif o'r hunan a galluoedd		Manteisio ar wasanaethau cynhwysol yn y gymuned	Yn dangos cynhesrwydd, canmoliaeth ac anogaeth
Profion meddygol ac inmiwneiddiadau cyfoes	Cysylltiadau da rhwng y cartref a'r feithrinfa / ysgol / coleg	Gallu addasu i newid	Dim profiad o fwlio neu gamwahaniaethu		Llety'n cynnwys yr holl amwynderau sylfaenol a chyfleusterau priodol	Hwyluso datblygu gwybyddol drwy ryngweithio a/neu chwarae
Deiet digonol a maethlon	Mynediad i lyfrau, tegau a deunydd addysgol	Gallu dangos empathi	Datblygu sgiliau hunanofal da		Rhwydweithiau teuluol a ffrindiau da	Dim problemau camddefnyddio alcohol / sylweddau
Gofal deintyddol neu optegol rheolaidd	Dim rhwystrau amlwg at ddysgu	Priodol gyfforddus mewn sefyllfaoedd cymdeithasol			Perthnasau da rhwng brodyr/chwiorydd	Rhianta sefydlog, diogel a gofalgar
Iechyd Meddwl da	Dim pryderon am ddatblygiad gwybyddol				Mynediad i weithgareddau cadarnhaol, rheolaidd	
Dim camddefnyddio sylweddau	Rhieni wedi'u galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus				Amgylchedd diogel	

Asesiadau rheolaidd yn ôl y galw

Cyfeirio at wasanaethau cynhwysol priodol neu gynnis gwybodaeth a chyngor

Dangosyddion Angen Enghreifftiol: Lefel 2 – Cymorth Ychwanegol

Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ganlyniadau gwael ac sydd angen cymorth ychwanegol gan wasanaethau

Anghenion Datblygiadol Plentyn					Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol	Gallu Rhianta	
Iechyd	Addysg	Emosiynol ac Ymddygiadol	Hunaniaeth				
Araf wrth gyrraedd cerrig milltir datblygiadol	Mwy nag un diarddeliad tymor penodol neu berygl o ddiarddel parhaol	Mewn perygl o, neu'n rhan o, fân droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol	Profiad o fwlio neu gamwahaniuaethu		Rhyw lefel o dlodi neu ddyled yn effeithio ar y cartref a'r plentyn	Rhianta anghyson / dim cyfyngiadau effeithiol	
Heb gofrestru â meddyg teulu na deintydd	Yn aml yn hwyr i'r ysgol; blinedig yn ystod gwersi sy'n effeithio ar y gallu i ddysgu	Ymddygiadau hunan-niweidiol	Hunan-barch isel, ddim yn teimlo o werth		Y cartref mewn cyflwr gwael a/neu ddiffyg amwynderau sylfaenol	Diffyg arferion cadarnhaol yn y cartref	
Anabledd neu anghenion iechyd cronig sy'n gofyn am gymorth ychwanegol	Presenoldeb gwael (is na 90%) neu absenoldeb rheolaidd	Methu â rheoli emosiynau	Mewn perygl o ecsploetiaeth rywiol (isel-canolig)		Perygl o daflu allan	Rhiant dibrofiad angen cymorth	
Profion meddygol, cyngor neu driniaeth ddim yn cael eu cydymffurfio â hwy'n gyson	Cysylltiadau gwael rhwng y cartref a'r feithrinfa / ysgol / coleg	Ymddygiad heriol yn y cartref neu'r gymuned	Hylendid gwael a/neu sgiliau hunanofal wedi'u datblygu'n wael		Dillad y plentyn heb eu golchi'n rheolaidd ac yn aml ddim yn ffitio'n dda	Rhieni'n dangos diffyg cynhesrwydd, canmoliaeth ac anwyldeb	
Deiet annigonol ei faeth	Yn aml i'w weld yn llwglyd yn y feithrinfa neu'r ysgol	Swil	Anawsterau ymwneud â chyfoedion		Y teulu'n chwilio am loches	Gwrthdaro domestig	
Gwlychu a baeddu heb eglurhad	Diffyg anogaeth gan y rhieni i ddysgu	Cael trafferth wrth alaru			Plentyn yn ofalwr ifanc eilaidd	Pryderon ynghylch camddefnyddio alcohol neu sylweddau	
Gweithgarwch rhywiol cynnar / anniogel	AAA yn cael ei reoli'n briodol gan Addysg, Iechyd a Chynllun Gofal				Diffyg cymorth teuluol neu risg o chwalu'r teulu	Problemau iechyd corfforol neu feddwl sylweddol a pharhaus	
Camddefnyddio'n arbrofol alcohol neu sylweddau	Mewn perygl o ddim cyflawni potensial dysgu				Dychwelyd adref o gyfnod dan ofal	Pryderon o ran ymlyniad i'r plentyn	

Cymorth cynnar

Dechrau a dilyn proses – nodi'r Prif Weithiwr Proffesiynol

Dangosyddion Angen Enghreifftiol: Lefel 3 – Anghenion Cymhleth

Plant a phobl ifanc sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer asesiad statudol

Anghenion Datblygiadol Plentyn					Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol	Gallu Rhianta	
Iechyd	Addysg	Emosiynol ac Ymddygiadol	Hunaniaeth				
Anaf nas eglurwyd neu amheus	Tangyflawni o ran potensial dysgu yn sylweddol	Syniadau hunanladdol goddefol	Mewn perygl i'r rhieni / teulu ei wrthod		Tlodi neu ddyledion difrifol yn effeithio ar y cartref a'r plentyn	Cymeradwyo neu annog troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol	
Methu ceisio gofal cynunedigol neu feddygol ar gyfer afiechydon neu anafiadau sylweddol	Yn gyson yn hwyr i'r ysgol; blinedig yn ystod gwersi sy'n effeithio ar y gallu i ddysgu	Gor-bryder neu iselder difrifol	Diffyg perthnasau teuluol cadarnhaol; dim teimlad o berthyn		Amgylchedd y cartref yn anaddas iawn gan agor y plentyn i risg o anafu	Anghenion iechyd emosiynol neu feddwl yn cyfaddawdu ar rai'r plentyn	
Amryw ymweliadau â'r adran damweiniau ac achosion brys	Diffyg presenoldeb yn yr ysgol neu'r plant yn methu Addysg	Ymddygiad y tu hwn i reolaeth rhieni	Dim teimlad o unigolrwydd		Person ifanc 16-17 oed digartref	Gofalwyr olynol neu'n gadael y plentyn dan ofal eraill yn aml	
Anabledd neu anghenion iechyd cronig yn gofyn am gymorth arbenigol	Rhiant yn annog neu'n rhan o absenoldeb o'r ysgol	Troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol rheolaidd	Mewn perygl sylweddol o ecsploetiaeth rhywiol		Yn aml yn newid trefniadau byw (llety ac aelodau'r cartref)	Camddefnyddio alcohol neu sylweddau sy'n cael effaith uniongyrchol ar y plentyn neu blentyn nas ganed	
Camddefnydd problematig o sylweddau ac alcohol	Yn ymddangos yn llwglyd yn y feithrinfa neu'r Ysgol yn rheolaidd	Yn aml ddim yn y cartref	Pryderon o ran: trais seiliedig ar anrhydedd / priodas dan orfod		Teulu na lwyddodd i ennill lloches gyda phlant	Cam-drin domestig sy'n cael effaith uniongyrchol ar y plentyn neu blentyn nas ganed	
Gweithgarwch rhywiol cyson annigol			Pryderon ynghylch radcaleiddio		Trefniadau maethu preifat	Ddim eisiau gofalu am y plentyn mwyach	
Pryderon o ran: anffurfio organau cenhedlu benywod			Teimladau o hunan-gasineb		Plentyn yn brif ofalwr ifanc	Anableddau dysgu'n effeithio ar y gallu i ofalu am blentyn neu blentyn nas ganed	

Cymorth cynnar

Dechrau a dilyn proses – nodi'r Prif Weithiwr Proffesiynol

Dangosyddion Angen Enghreifftiol: Lefel 4 - Diogelu

Plant a phobl ifanc sydd ag angen diogelu a chymorth dwys

Anghenion Datblygiadol Plentyn					Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol	Gallu Rhianta	
Iechyd	Addysg	Emosiynol ac Ymddygiadol	Hunaniaeth				
Anaf annamweiniol	Ymddygiad yn risg ddifrifol i'w hunain ac eraill yn yr ysgol	Meddyliau hunanladdol actif neu ymdrechion hunanladdol	Gwrthodir gan rieni / teulu		Digartref a ddim yn gymwys am gartref dros dro	Anghenion iechyd emosiynol neu feddwl yn cyfaddawdu'n sylweddol ar rai'r plentyn	
Yn peryglu ei fywyd ei hun drwy hunan-niwed, camddefnyddio sylweddau neu anhwylder bwyta	Datgelu niwed neu gam-drin i staff yr ysgol	Ymddygiad yn risg ddifrifol i'w hunain ac eraill	Yn cael ei ecploetio'n rhywiol		Amgylchedd y cartref yn anaddas iawn gan agor y plentyn i risg o niwed sylweddol	Anallu/amharodrwydd i ddiogelu rhag niwed rhywiol, corfforol neu emosiynol	
Gweithgarwch rhywiol dan 13 oed	Yn dangos ymddygiad rhywiol niweidiol	Yn dangos ymddygiad rhywiol niweidiol	Dim hunan-barch na theimlad o werth personol		Ceisiwr lloches digwmni / dioddefwr masnachu pobl a/neu gaethwasiaeth	Y plentyn yn gweld ymosodiadau domestig corfforol yn rheolaidd	
Esgus salwch neu wneud ei hun yn sâl	Dadroleiddio emosiynol	Cam-drin plant eraill	Pryderon sylweddol parthed radcaleiddio		Person sy'n risg i'r plant yn byw'n y cartref neu'n mynd yno'n rheolaidd	Cam-drin alcohol neu sylweddau pan fo'r plentyn dan ei ofal unigol	
Wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod neu Orchymyn Diogelu wedi'i ddyfarnu		Ar goll o'r cartref yn gyson	Risg uchel o drais seiliedig ar anrhydedd neu briodas dan orfod (neu'n destun Gorchymyn Diogelu a ddyfarnwyd)			Yn gadael y plentyn gartref (yn berthnasol i oedran neu amgylchiadau)	
Gwrthod gofal meddygol yn arwain at beryglu bywyd						Esgeulustod difrifol o ran anghenion sylfaenol	
Baban heb ei eni mewn perygl o niwed sylweddol						Troseddu'n peri risg sylweddol i'r plentyn	

Trafodaeth Strategaeth / Ymchwiliad Adran 47

(Atgyfeiriad MASH: neu gysylltu â'r heddlu mewn argyfwng)

Atodiad 6: Amodau Cymhwyso ar gyfer gofal a chymorth


Mae pedwar amod cymhwyso sy'n rhaid eu bodloni er mwyn i deulu gael ei asesu fel un sydd â hawl i gynllun gofal a chymorth. Yr unig eithriad i hyn yw os oes pryderon diogelu, os felly mae gan y teulu hawl awtomatig.

Y pedwar amod yw:

1. Os yw'r angen yn codi o **amgylchiadau'r** teulu:
 - Gallai hyn gynnwys salwch corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau yn ogystal ag unrhyw angen sy'n debygol o gael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn os nas bodlonir.
2. Os yw'r angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r **canlyniadau** canlynol:
 - Gallai hyn gynnwys gallu cynnal arferion domestig, gallu cyfathrebu diogelu rhag cam-drin neu esgeulustod, gweithio, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden, cynnal perthnasau teuluol neu bersonol neu gyflawni nodau datblygiadol.
3. Os **na all yr angen gael ei fodloni** gan unrhyw rai o'r canlynol, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad:
 - Plentyn
 - Rhieni'r plentyn neu unrhyw un arall mewn rôl rianta
 - Cymorth rhywun parod arall
 - Gwasanaethau cymunedol y mae gan y teulu fynediad atynt
4. Os yw'r teulu'n **annhebygol o gyflawni** un neu fwy o'u canlyniadau personol oni bai bod yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth i ddiwallu'r angen; neu bod yr awdurdod lleol yn galluogi diwallu'r angen trwy wneud taliadau uniongyrchol.

Dylai'r teulu, person ifanc neu blentyn gael eu trin fel partneriaid cydradd wrth weithio gyda'r awdurdod lleol i asesu trefniadau gofal a chymorth nawr ac yn dyfodol.

Atodiad 7: Triongl y Fframwaith Asesu



Mae pob plentyn yn newid ac yn datblygu dros amser. Mae gan rieni gyfrifoldeb i ymateb i anghenion y plentyn. Diben y triongl asesu hwn yw eich helpu i nodi cryfderau ac anghenion datblygu, er mwyn eich cynorthwyo i benderfynu a yw'r plentyn/person ifanc hwn angen gwybodaeth, cyngor neu gymorth a/neu ofal a chymorth i gyflawni safon ddatblygu resymol neu i atal nam sylweddol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

Er nad yw'r datganiadau blaenorol yn destun pryder yn unigol, mae angen ystyried cyfuniad o ffactorau mewn asesiad cyfannol. Mae'n bwysig ystyried cryfderau yn ogystal ag anawsterau.

Cymerwyd gan CYSUR: Dogfen Bwrdd Diogelu Plant Canol a Gorllewin Cymru: 'Yr Help Cywir ar yr Adeg Gywir' i Blant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd.